

# PRIF GYNLLUN DINAS BANGOR

Awst 2020

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 6 |
| Dyddiad y fersiwn: | 3 Awst 2020 |
| Sylw: | Adroddiad Terfynol |

Paratowyd a gwiriwyd y ddogfen hon
yn unol ag ISO 9001:2015

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 0.0 CRYNODEB GWEITHREDOL | 4 |
| 1.0 CYFLWYNIAD | 7 |
| 1.1 Y Cyd-destun | 8 |
| 1.2 Bangor Nawr | 10 |
| 1.3 Lleoliad Bangor | 12 |
| 1.4 Maes Ffocws | 14 |
| 2.0 METHODOLEG | 17 |
| 2.1 Methodoleg | 18 |
| 2.2 Gwybodaeth Waelodlin | 18 |
| 2.3 Ymgysylltiad y Rhan-ddeiliaid | 28 |
| 2.4 Safleoedd Datblygu Allweddol | 36 |
| 3.0 BANGOR - DINAS FACH FYD-EANG | 39 |
| 3.1 Y weledigaeth | 40 |
| 3.2 Amcanion y Weledigaeth - Y Pum Elfen | 41 |
| 4.0 Y PRIF GYNLLUN | 47 |
| 4.1 Y Cysyniad | 48 |
| 4.2 Cynllun Fframwaith | 50 |
| 4.3 Prosiectau A-O | 52-85 |
| 4.4 Bangor Gysylltiedig | 86 |
| 4.5 Ap Bangor | 88 |
| 5.0 ARGYMHELLION | 91 |
| 5.1 Argymhellion | 92 |

# 0.0. Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn gosod gweledigaeth ar gyfer sut y gallai Bangor ddatblygu i fod yn lle deniadol, llwyddiannus a chynaliadwy i bobl. Bydd cyflwyno'r weledigaeth yn gofyn am waith ar y cyd ac mewn partneriaeth gydag ystod eang o ran-ddeiliaid. Mae momentwm ac egni cryf o entrepreneuriaid a buddsoddwyr i elwa ohonynt er mwyn cyflawni'r newid trawsffurfiol y mae'r weledigaeth yn ei disgrifio.

Datblygwyd y weledigaeth mewn cydweithrediad ag LDA Design, ond cafodd ei arwain gan y gymuned a sefydliadau allweddol Bangor drwy gyfres o weithdai ar 'Economi a Hyrwyddo', 'Tai, Iechyd a Llesiant', a 'Datblygiad a'r Amgylchedd'. Datblygwyd y prif themâu a ymddangoswyd o'r rhain i mewn i weledigaeth ar gyfer Bangor, gan adlewyrchu ei hanes o ran arloesi a dysgu, cysylltiadau rhyngwladol a dyheadau - Dinas Fach Fyd-eang. Rhennir y weledigaeth yn bum elfen:

* Y Mynyddoedd a'r Môr;
* Syniadau ac Archwilio;
* Dinas Iach;
* Teg a Chyfiawn;
* Dinas o Un Byd

Dehonglir y weledigaeth mewn prif gynllun sydd wedyn yn cael ei isrannu i brosiectau lleoedd a symudiadau sy'n caniatáu i'r weledigaeth gael ei chyflwyno fesul tipyn. Un o'r prif brosiectau yw'r gwelliannau i Ffordd Deiniol, sy'n gwasanaethu fel prif wythïen i'r ddinas, gan gysylltu rhai o'r prif atyniadau a'r mannau cyhoeddus. Disgrifir Ffordd Deiniol a phrosiectau eraill ynghyd ag ystyriaethau gofodol yn y ddogfen.

Mae'r ddogfen yn cloi drwy osod argymhellion am sut y gellir datblygu a chyflwyno'r weledigaeth. Dyma'r prif argymhellion:

* Enwebu pencampwr;
* Cipio cyfleoedd;
* Codi'r bar ar gyfer safon;
* Parhau i fod yn gyfranogol;
* Paratoi ar gyfer pandemigau.

Mae angen i'r weledigaeth a'r prosiectau ffurfio rhan o'r cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol eraill er mwyn datblygu prosiectau a buddsoddwyr yn y ddinas. Bydd gyrru'r weledigaeth hon yn ei blaen wrth barhau i fod yn sensitif i'r newidiadau yn nyheadau ac anghenion y gymuned o gymorth i greu'r math o ddinas a ragwelir.




**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Crynswth dangosol ar gyfer safleoedd datblygu
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Coeden Arfaethedig
- Coeden Gyfredol
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Arwyddion deallus neu dotemau pwrpasol
- Calon y ddinas
- Lleoliadau datblygu posib
- Lleoliad dangosol nodweddion chwarae y gyrchfan
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr
- Gwella Ffyrdd Cerbydol

**Prif Gynllun Dangosol**

0 200m



Menai bridge
Hospital
Sahl
Friars
State
Coleg
Sahl
Macdonalds
Morrisons
Tesco
Range
Library
Water Front
Patio

# 1.0 Cyflwyniad

# 1.1. Y Cyd-destun

Paratowyd Prif Gynllun Dinas Bangor gan LDA Design, gyda chymorth Phil Jones Associates, BE Group a Donald Insall, ar ran Partneriaeth Strategol Bangor. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y dymunwn siapio esblygiad y ddinas dros y ddwy ddegawd nesaf. Dyma ganlyniad cyfarfod rhwng unigolion a sefydliadau, pobl sy'n gwneud penderfyniadau, arweinyddion busnes, swyddogion y Cyngor ac arbenigwyr lleol, gan weithio ynghyd i greu gweledigaeth i Fangor.

Mae pawb sydd ynghlwm eisiau dal eu gafael ar nodweddion unigryw Bangor, a chreu prif gynllun sy'n sicrhau bod y ddinas yn ffynnu yn y dyfodol. Swyddogaeth y prif gynllun yw adnabod heriau'r ddinas, a manteisio ar gyfleoedd i gael gwelliannau ystyrlon. Mae'r prif gynllun yn symud y gwaith cychwynnol a gynhaliwyd gan y Bartneriaeth ar Strategaeth a Gweledigaeth Bangor yn ei flaen (Rhagfyr 2016). Mewn ymateb i'r briff a sefydlwyd gan y Bartneriaeth, mae'r prif gynllun yn canolbwyntio ar y safleoedd strategol allweddol, yn ogystal â mynediad, cysylltedd, llif cerbydau a cherddwyr, canolfannau trafnidiaeth gyhoeddus, mannau gwyrdd ac agored yn y Ddinas. Mae'r ymarfer cynllunio'r prif gynllun wedi creu cyfres o ddewisiadau, datrysiadau a chynlluniau fydd yn gwella profiad defnyddwyr yn y Ddinas.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r prif gynllun i Fangor, ac mae'n ymwneud â rhoi pobl wrth wraidd ein cynllunio a'n llunio lle. Mae'r Cyflwyniad yn rhoi darlun o Fangor heddiw, yn gosod y cyd-destun ac yn disgrifio'r maes astudiaeth. Dilynir hyn gan y Fethodoleg sy'n cynnwys cefnogi gwybodaeth am y maes astudiaeth, egluro'r broses ran-ddeiliaid y cwblhawyd ac adnabod safleoedd datblygu posib cyfredol. Mae hyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer Adran 3 sy'n cyflwyno gweledigaeth a rennir, yn siartio'r llwybr ar gyfer y ddinas, ac yn gosod lefel yr uchelgais. Gan ystyried y Weledigaeth, mae Adran 4 yn cyflwyno'r Cysyniad ar gyfer y prif gynllun a'r Cynllun Fframwaith. Mae'r Cynllun Fframwaith yn adnabod cyfres o brosiectau a flaenoriaethwyd yn y broses ran-ddeiliaid. Disgwylir i'r prosiectau arfaethedig, sy'n darparu strategaeth ar gyfer dyfodol Bangor, gael eu gweithredu'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae Prif Gynllun Bangor yn rhoi cyfle i siapio dyfodol y ddinas a all adael etifeddiaeth o ddatblygu cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Drwy ddylunio da, gall y gwelliannau arfaethedig gydsynio â phob un o'r saith nod llesiant a osodir yn y Ddeddf:

* Cymru ffyniannus - Cynyddu stoc dai o ansawdd uchel a chreu cyfleoedd cyflogaeth a buddsoddi yn y ddinas;
* Cymru gydnerth - Ymateb i newid hinsawdd gyda dyluniadau cydnerth;
* Cymru iachach - Hyrwyddo cerdded a beicio i wella iechyd corfforol a meddyliol;
* Cymru fwy cyfartal - Darparu tai fforddiadwy integredig o ansawdd uchel a mwy o gyfleoedd addysg i bob oed a gwella hygyrchedd;
* Cymru o gymunedau cydlynus - Darparu cyfleusterau a defnyddiau cymunedol mwy lleol megis y ganolfan iechyd newydd a'r ganolfan ddigartrefedd, yn ogystal â mannau agored cyhoeddus diogel gyda digon o offer a llefydd i dyfu bwyd lleol ac ati i hybu cydlyniad cymdeithasol;
* Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Amlygu a hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol, treftadaeth y ddinas a thirlun nodedig yr ardal ehangach;
* Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - Hyrwyddo ymdriniaeth Cymru â llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy ddatblygu dyluniad cynaliadwy enghreifftiol.


Community Centres
Drugs supply
under offer

# 1.2. Bangor Nawr

Mae Bangor yn ddinas ddeniadol ar arfordir prydferth Gogledd Cymru, ger y Fenai. I'r de o'r ddinas, mae Mynydd Bangor sy'n cysgodi'r Stryd Fawr, a thu hwnt i hynny mae rhanbarth mynyddig Parc Cenedlaethol Eryri. Mae crib arall, o'r enw Bangor Uchaf, yn codi i'r gogledd o'r Stryd Fawr, lle saif y brifysgol. Ym mhen gogleddol y ddinas, mae'r Pier Garth Fictoraidd gosgeiddig yn ymestyn i'r Fenai.

Mae gan y ddinas gymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys prifysgol flaenllaw yn y DU, Canolfan Gelfyddydau newydd Pontio, Porth Penrhyn, ysbyty ac ardaloedd manwerthu. Saif y Gadeirlan yng nghanol y ddinas, ar safle'r sefydliad mynachaidd sefydlol, sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r 6ed ganrif OC. Rhydd Bangor i'w breswylwyr ansawdd bywyd gwych, ynghyd â nifer o fanteision bywyd trefol sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â threfi a dinasoedd llawer mwy.

Fodd bynnag, mae nifer o'r grymoedd aflonyddus sy'n effeithio ar fwyafrif y trefi a'r dinasoedd ledled Prydain a thu allan i'r canolfannau metropolitanaidd mawr hefyd yn effeithio ar Fangor. Mae'r rhain yn cynnwys:

* Crebachiad adwerthiant ar y Stryd Fawr, wedi'i yrru gan newidiadau mewn arferion siopa a diflaniad enwau a brandiau adnabyddus;
* Newidiadau mewn patrymau gwaith, gyda mwy o hyblygrwydd i unigolion a busnesau;
* Diffyg fforddiadwyedd a dewis mewn tai, yn enwedig ar gyfer y genhedlaeth sy'n ceisio symud i fyny'r ysgol eiddo;
* Datblygiad a thwf;
* Rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus gwan ac isadeiledd trafnidiaeth annigonol.

Mae Ffordd Deiniol yn dilyn y dyffryn hir drwy ganol y ddinas. Ar hyn o bryd, mae'n ffordd drwodd ac yn cael ei gefnu gan adwerthiant mawr wedi'i leoli ar y Stryd Fawr, sydd mewn gwirionedd yn datgymalu'r Stryd Fawr oddi wrth Brifysgol Bangor. Mae hyn yn cael effaith neilltuol ar y modd y canfyddir y ddinas, a'r ffordd y mae'n perfformio. Gyda'i gilydd, mae hyn yn creu canol dinas hirach gan wneud iddo deimlo'n estynedig iawn. Mewn dim o dro, bydd yr effaith yn cael ei waethygu gan grebachiad adwerthiant sy'n effeithio ar bob tref a dinas.

Ymhellach at hynny, mae Parc Menai sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i orllewin yr A55 a Pharc Siopa Menai i'r de o ganol y ddinas yn tynnu pobl o ganol y ddinas. Gyda brandiau allweddol megis Tesco Extra, B&Q, Dunelm, Currys PC World, McDonald's ac Argos, mae gan yr ardal siopa hon dynfa fawr fel cyrchfan siopa.

Mae gan y ddinas ddiffyg ardal hamdden benodol, nid yn unig ar gyfer ei breswylwyr ond hefyd ar gyfer poblogaeth y myfyrwyr sy'n farchnad allweddol ar gyfer nifer o ddefnyddiau hamdden, megis campfeydd, tafarndai, clybiau nos a chlybiau chwaraeon.

Nid yw asedau ar gyfer nifer ymwelwyr uchel ym Mangor, megis archfarchnadoedd canol y ddinas a Phrifysgol Bangor, wedi cael eu cysylltu'n dda gyda gwraidd Stryd Fawr canol y ddinas. Mae'r Brifysgol ym Mangor Uchaf, ac mae'r archfarchnad fawr agosaf, sef Asda, wedi'i lleoli tuag at yr A5 ac mae ganddo gysylltiadau gwael i gerddwyr at y Stryd Fawr, ac mae Aldi a Lidl ar gyrion canol y ddinas. Mae gan yr orsaf reilffordd hefyd gysylltiad gwael i ganol y ddinas.

Mae'r farchnad swyddfeydd masnachol ym Mangor yn amlweddog, er rhywfaint yn fach. Mae'n cynnwys busnesau SME preifat mewn unedau bach, asiantaethau a mentrau sector cyhoeddus sydd yn gysylltiedig â (neu o fewn) y Brifysgol. Mae'r rhannau hyn o'r farchnad yn cynrychioli'r cyfleoedd parhaus tebygol ar gyfer gofod swyddfa ym Mangor. Gallai gofod swyddfa sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol ymddwyn fel cyswllt rhwng canol y ddinas a'r Brifysgol.

Mae rhywfaint o'r stoc preswyl ar gyrion canol y ddinas, yn enwedig ar ben gogleddol y Stryd Fawr, wedi dyddio ac mae ganddo'r potensial i gael ei adnewyddu a'i adfywio dros y tymor canolig i'r tymor hwy. Byddai potensial i gynyddu dwyseddau ar gyrion canol y ddinas drwy adnewyddu'r ardal hon, er y cydnabyddir y byddai hyn yn broses raddol, hirdymor, a fyddai'n gofyn am ymgysylltiad parhaus y gymuned leol hon.

Ar ei ben ei hun, ni all prif gynllun Bangor fynd i'r afael â'r holl faterion hyn, ond mi all fod o gymorth i'r ddinas ac i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau weithio mewn modd mwy strategol i ddal nodweddion unigryw'r ddinas, ynghyd ag egni a thalent ei dinasyddion i wneud Bangor yn lle gwell.

**Delweddau o Fangor ▶**


Pontio


CATS










HUB
CX13 YMY

# 1.3. Lleoliad Bangor

Saif Bangor ar lan y Fenai yng Ngogledd Cymru, a dyma'r unig ddinas sy'n ffurfio rhan o arfordir trefol sy'n cynnwys trefi a phentrefi eraill megis Caernarfon, Llandudno a Rhyl. Mae'r patrwm hwn o aneddiadau yn ymestyn yr holl ffordd at Afon Dyfrdwy, lle mae gweithgarwch mwy diwydiannol wedi cael ei gynnal yn draddodiadol. Mae'r trefi cyfagos hyn oll yn cystadlu ond hefyd yn ategu ei gilydd o ran adwerthu, siopau manwerthu, twristiaeth a darpariaeth addysg.

Mae Bangor wedi'i gysylltu'n dda â Lerpwl a Manceinion, sef y canolfannau trefol mawr agosaf. Mae ardaloedd mawr nodedig eraill sy'n cynnig cyfleoedd swyddi a chyfleoedd eraill yn cynnwys Caer a Wrecsam, ac maent wedi'u cysylltu'n dda â Bangor drwy'r rheilffordd a'r ffordd.

O ran cysylltiadau, mae gan Orsaf Drenau Bangor nifer o wasanaethau sy'n rhedeg bob dydd gyda chysylltiadau uniongyrchol i Gaerdydd Canolog, Llandudno a Chaer, a chysylltiadau ymlaen i Lerpwl a Llundain. Mae gorsaf fysiau fach yng nghanol y ddinas yn darparu cysylltiadau i'r ardaloedd cyfagos ac mae'n gweithredu fel canolfan i wasanaethau lleol.

Mae'r rhwydwaith ffyrdd o gwmpas Bangor hefyd wedi cael ei ddatblygu'n dda, gyda Gwibffordd Gogledd Cymru yn cylchu o gwmpas y ddinas. Fodd bynnag, mae angen nodi hefyd bod hyn yn cael effaith negyddol o ran tynnu ymwelwyr a masnach sy'n pasio oddi wrth y canol ac allan i gyrion y ddinas, neu i gyrchfannau cyfagos yn gyfan gwbl.


Mae Bangor hefyd wedi'i leoli ger Parc Cenedlaethol Eryri ac Ynys Môn, y ddau ohonynt yn brif gyrchfannau i ymwelwyr sydd hefyd yn cefnogi'r economi leol. Er nad yw Bangor wedi cael ei gysylltu'n draddodiadol â thwristiaeth yr awyr agored, mae potensial i wneud mwy o'r cyfleoedd hyn yn y dyfodol. Er enghraifft, mae modd i Fangor ddod yn fwy o ganolfan drefol i ymwelwyr Ynys Môn ac Eryri, lle gallant gael mynediad i nifer o ardaloedd twristiaeth bywiog yn y rhanbarth.

Mae swyddogaeth Bangor yn y rhanbarth wedi newid dros amser i gael llai o siopau, a mwyafrif yr ymweliadau siopa erbyn hyn yn cynnwys yr ardaloedd y tu allan i'r dref, yn ogystal â pharciau siopa newydd Llandudno a Chaergybi. Fodd bynnag, mae ei swyddogaeth fanwerthu erbyn hyn wedi setlo'n gyffredinol, ac er y bydd manwerthu y tu allan i'r dref yn parhau i fod yn ganolfan siopa bwysig o ran cyfleustod, mae cyfle i ailddyfeisio ei gynnig siopa canol y dref. Er gwaethaf yr angen hwn i addasu i'r amgylchiadau sy'n newid, yn ogystal â'r tueddiadau cenedlaethol, mae Bangor yn parhau i fod yn ganolfan bwysig ar gyfer siopa, ond efallai yn bwysicach fyth, ar gyfer addysg a diwylliant.

O ran cyflogaeth, mae Bangor yn lletya ac yn agos i nifer o gyflogwyr mawr a chyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal. Mae Prifysgol Bangor yn darparu nifer o swyddi addysgu a gwasanaeth a dyma'r cyflogwr mwyaf yn y Ddinas, gyda swyddi gwasanaeth eraill yn y canol yn cyfrif am y prif gyfleoedd cyflogaeth. Mae Parc Menai, i'r gogledd o'r Fenai, yn barc busnes, wedi'i anelu at ddiwydiannau digidol newydd a busnesau newydd, ac mae ganddo gysylltiadau gyda Phrifysgol Bangor a sgil-fusnesau o ganlyniad i ymchwil a gynhelir yn yr ardal. Mae'r parc busnes yn darparu gofod a chyfleoedd busnes o ansawdd uchel ar gyfer swyddi gyda thâl uwch, sy'n arbenigol iawn, yn yr ardal. Mae cyflogwyr mawr eraill yn yr ardal ehangach yn cynnwys RAF Y Fali/Maes Awyr Ynys Môn a Gorsaf Bŵer Wylfa.




**Mae parciau siopa a gweithredwyr unigol mewn cystadleuaeth â chanol y ddinas.**


Y Cyd-destun Rhanbarthol
Cysylltiadau Ffyrdd Allweddol
Road Links
Cysylltiadau Rheilffordd
Tir
Canolfannau Gweithgareddau
Economaidd
Cyfleoedd Chwaraeon Actif
Wylfa Newydd
Holy Island
Parc Gwyddoniaeth
Menai / M-S Parc
Bangor
Llandygai Industrial
estate
Plas Menai National
Water Sports Centre
Adventure Park
Snowdonia
Conwy
Bae Colwyn /
Colwyn Bay
Porthladd
Mostyn / The
Port of Mostyn
Mostyn
Open Door Adventure
Lerpwl /
Liverpool
Paradise Island
Adventure Golf
Shotton
Bretton
Caer /
Chester
Boulder Adventures Ltd
Pen-y-Benglog
Zip World Slate Fforest
Go Below
Underground Adventures
One Planet Adventure
Zip World
Slate Caverns
Outdoor Adventure Wales
Trawsfynydd Enterprise
Zone
Wrecsam /
Wrexham
Llŷn Adventures
Parc Glasfryn /
Glasfryn Parc
Pro Active Adventure
Demon Adventures
North Wales
Get Wet The Adventure
Company
Coed y Brenin
Parc Cenedlaethol
Eryri / Snowdonia
National Park
Llanbedr

# 1.4. Maes Ffocws

Mae'r astudiaeth hon o'r prif gynllun yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o'r ddinas gyfan a'r rhanbarth ehangach gyda mwyafrif yr ymyraethau wedi'u cynnig ar gyfer canol y ddinas. Er mwyn deall sut mae'r ganolfan wedi datblygu, mae'n bwysig amgyffred sut mae'r tueddiadau ehangach wedi creu'r newidiadau hyn  Mae'r ymyraethau arfaethedig yn gyfyngedig gan fwyaf i ganol Bangor oherwydd yr angen i'r canol newid er mwyn gwella'r gwasanaeth i'r ddinas gyfan a'r ardal ehangach. Gall dinas ond lwyddo os yw'r canol yn egnïol sy'n darparu ar gyfer pawb, a bod ganddi gysylltiadau da gyda phob cymydog.

Ar hyn o bryd, mae canol Bangor eisoes yn amlweddog gyda defnydd siopa, diwylliannol a phrifysgol oll yn creu'r canol, gyda chyrion allanol y canol wedi'i wneud gan fwyaf o ardaloedd preswyl, glannau a gorsaf.

Rhennir cynnig manwerthu canol y ddinas i dair rhan nodedig - y ddwy ardal siopa, archfarchnadoedd mawr a'r Stryd Fawr. Mae gan y ddwy ganolfan siopa fawr, Canolfannau Menai a Deiniol, ddewis cymharol eang ac amrywiol o siopau, a dim ond nifer cyfyngedig o ofod gwag sydd wedi bod yma, er bod disgwyl i hyn dyfu yn unol â'r tueddiad cenedlaethol. Ceir tair archfarchnad wedi'u lleoli o fewn y canol hefyd - Asda, Aldi a Morrisons, oll yn gorwedd o fewn pellter cyrraedd i Ffordd Deiniol gyda llefydd parcio am ddim cysylltiedig i gwsmeriaid. Mae'r Stryd Fawr yn rhoi cynnig canmoliaethus o siopau annibynnol llai, gwasanaethau a sefydliadau bwyd a diod gyda dewis ehangach ar gael na'r disgwyl i ddinas o faint tebyg. Ar y cyfan, mae lefel y gwagleoedd yn isel ac mae'r mathau o siopau yn bennaf yn cynrychioli busnesau lleol neu gadwyni llai, sy'n dueddol o fod yn fwy gwydn i newidiadau economaidd. Mae lefel y ddeiliadaeth mewn siopau'n cynyddu wrth i rywun deithio ymhellach tua'r gogledd ar hyd y Stryd Fawr, gan ddangos y gallai rhai unedau manwerthu fod yn cryfhau'n naturiol.

Mae gan y ddinas gynnig diwylliannol cyfoethog yn y canol gyda Storiel, Theatr Ieuenctid Frân Wen, Cadeirlan Bangor a Chanolfan Pontio. Mae Pontio hefyd yn gweithredu fel mynedfa i ardal y Brifysgol.

Er bod prif gampws y brifysgol yn sefyll ar ben yr allt, yn edrych dros ganol Bangor, mae campysau wedi'u lleoli o fewn y ddinas sy'n ffurfio rhan o'r gwead trefol, megis y campws Gwyddoniaeth ar Ffordd Deiniol, a'r Gyfadran Beirianneg ar Stryd y Deon.

Mae glannau Bae Hirael yn bennaf yn cynnwys y Promenâd a'r ardaloedd o gwmpas Ffordd y Traeth. Er bod yr ardal yn breswyl yn bennaf, gyda rhywfaint o ddefnydd masnachol ar hyd Ffordd y Traeth, mae mwy o botensial i ychwanegu at y cyfleusterau hyn, drwy ailddatblygu'r cyfleusterau hamdden ac ansawdd y promenâd. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys Pier Garth, sy'n ymestyn i'r Fenai a'r clwstwr o lety Gwely a Brecwast a busnesau tafarndai a sefydlwyd o'i gwmpas. Mae Porth Penrhyn gerllaw yn borthladd gweithgar gyda rhywfaint o bysgota, ond cychod hamdden yn bennaf.

Ardal yr orsaf rheilffordd yw un o'r prif fynedfeydd i Fangor; fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r ardal i'r dwyrain o'r orsaf yn cael ei feddiannu gan le parcio, ynghyd â llif y traffig ger y gyffordd gyda Ffordd Deiniol. Ar hyn o bryd, mae'r ardal i'r gorllewin o'r orsaf yn cael ei defnyddio ar gyfer parcio, diwydiant ysgafn ac ar gyfer depo'r Post Brenhinol. Nid yw rhannau o'r ardal hon wedi'u datblygu digon nac yn cael digon o ddefnydd. Mae gan yr ardal hon y potensial i ddod yn rhan llawer pwysicach o'r ddinas, gyda chysylltiadau gwych i ganol y ddinas ac i'r orsaf rheilffordd.

Y CANOL



**Mae marchnadoedd manwerthu a masnachol yn amlweddol ac yn elwa o leoliad y brifysgol.**




**Cynllun Cymeriad a Defnyddiau**

- Ardal Ddiwylliannol
- Porthladd
- Preswyl gan fwyaf· yn cynnwys ysgolion a cholegau
- Manwerthu
- Gorsaf
- Y Brifysgol
- Y Glannau
- Adeiladau Presennol
- Canolfan Leol
- Ffin y BID
- Maes Ffocws
- Ardaloedd Cadwraeth


School
Bangor Pier
Green
Plaza
Car Park
Green space
Bus
Swimming Pool
Police
Green Space
Cathedral
Deiniol
Clock
Tower
?

# 2.0 Methodoleg

## 2.1. Methodoleg

Mae'r broses ar gyfer creu'r prif gynllun i ganol Bangor wedi dilyn pedwar cam - dyma grynodeb ohonynt:

1. Adolygiad gwaelodlin - cyn ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriad neu waith dylunio, roedd angen cynnal dadansoddiad trylwyr o Fangor. Roedd hyn yn edrych ar drawstoriad o faterion er mwyn deall yr hyn oedd yn siapio Bangor, a pha faterion y bydd yn rhaid delio â nhw er mwyn ei galluogi i barhau i fod yn ddinas lwyddiannus yn yr unfed ganrif ar hugain. Roedd y broses hefyd yn ôl-weithredol, gan ymgymryd â nifer o astudiaethau dilynol, pan fyddai materion newydd yn codi drwy ymgynghoriad neu waith dylunio. Cyflwynir canlyniad cyfunol y gwaith asesu yn Adran 2.2.

2. Ymgysylltiad â rhan-ddeiliaid - cyn ymgymryd ag unrhyw waith dylunio, ymgysylltodd LDA Design â'r Bartneriaeth Strategol ynghyd â'r gymuned leol er mwyn deall eu pryderon a'u dyheadau ar gyfer Bangor. Roedd digwyddiadau yn y gymuned yn cynnwys Wythnos Fawr Bangor - sef cyfres o weithdai gyda thrawstoriad o aelodau'r gymuned a arweiniodd at greu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer datblygiad Bangor yn y dyfodol. Yn ychwanegol at hyn, cynhaliwyd sesiwn galw heibio gyda'r nos, a sesiwn ar wahân i edrych tuag at y dyfodol gyda'r myfyrwyr o ysgol leol. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion am hyn yn Adran 2.3.

3. Gweledigaeth, safleoedd datblygu a phrosiectau - yn dilyn datblygu'r weledigaeth a ddisgrifir yn Adran 3, cynhaliwyd ymarferion dylunio a phrofi mwy manwl mewn ymgynghoriad â Chyngor Gwynedd a'r Bartneriaeth Strategol. Roedd y rhain yn edrych ar brosiectau posib y gellir eu cynnal, ynghyd â safleoedd datblygu a allai alluogi'r prosiectau hyn. Crynhoir y safleoedd datblygu yn Adran 2.4. Mae'r prosiectau wedi'u nodi yn Adran 4.

4. Dogfen y cynllun mawr - cafodd hon ei chreu er mwyn tynnu'r holl rannau ynghyd a dangos sut y daethpwyd i'r casgliadau hyn, drwy ddarn o waith cynhwysfawr, dan arweiniad uchelgeisiau'r gymuned leol.

## 2.2. Gwybodaeth Waelodlin

Roedd angen cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r ddinas a'r hyn sydd o'i chwmpas er mwyn i'r tîm dylunio ddeall y prif ffactorau a oedd yn siapio Bangor, ac er mwyn gallu perthnasu â'r materion a fydd yn ei siapio wrth symud ymlaen. Yn bennaf, cynhaliwyd y dadansoddiad hwn cyn unrhyw waith ymgysylltu gyda'r gymuned a chyn ysgrifennu dim ar bapur. Mae'n cael ei gyflwyno o dan dair thema sy'n adlewyrchu'r materion a nodir yn Strategaeth a Gweledigaeth Bangor 2016, ac a ddefnyddiwyd wedi hynny yn y gweithdai yn ystod wythnos fawr Bangor.

### Economi a Hyrwyddo

Mae LDA Design wedi cael ei gynghori gan BE Group ar gyflwr cyfredol y farchnad a'r tueddiadau ym Mangor, er mwyn helpu i ddeall pa ymyraethau sydd eu hangen i ganiatáu i'r ddinas osod llwybr at gael canolfan hyfyw ac amrywiol. Mae'r newidiadau sydd wedi digwydd dros y ddegawd ddiwethaf yn rhan o'r tueddiad cenedlaethol ac maent yn cael eu dylanwadu gan newidiadau yn y rhanbarth. Mae rhai o'r materion hyn eisoes yn cael eu trafod yn Adran 1.3.

Mae crynodeb o ganfyddiadau BE Group ar farchnadoedd cyfredol manwerthu, preswyl a masnachol Bangor wedi'u nodi isod.

Mae gan Fangor lefel arwyddocaol o fanwerthu, gan gynnwys brandiau a adnabyddir yn genedlaethol, yn enwedig o ystyried maint canol y ddinas. Er bod cynrychiolaeth manwerthu ym Mangor yn gryfder gan ganol y ddinas ar hyn o bryd, mae'n golygu nad oes llawer o botensial i dyfu yn y sector manwerthu ar y stryd fawr mewn blynyddoedd i ddod. Yn hytrach, mae'r cyfleoedd yn debygol o fod drwy weithredwyr llai, annibynnol, yn cynnwys gweithredwyr bwyd ffres arbenigol o ansawdd (e.e. becws, siop deisennau, groser, ac ati) a gwasanaethau personol (e.e. siopau trin gwallt, gwasanaethau harddwch, therapïau personol, ac ati). Mae'r rhain yn ddefnyddiau sy'n llai bregus i'r symudiad at wasanaethau manwerthu ar-lein ac yn adlewyrchu cyfran sy'n tyfu yn y farchnad, sef gwariant ar ansawdd a phrofiad.

Mae gan Fangor amrywiaeth o lety yn y canol ac ar y cyrion, gan gynnwys llety, fflatiau ac ystafelloedd i fyfyrwyr. Gall hyn oedi neu atal datblygiad rhaglenni sydd ag angen wedi'i nodi yn y farchnad, ond sydd yn cael eu hasesu fel bod â risg ariannol arwyddocaol. Mae'r ffenomen hon wedi digwydd drwy gydol y Deyrnas Unedig ac mae'n peri bod angen partneriaethau arloesol neu adnabod ffynonellau ariannu er mwyn galluogi i gynlluniau barhau.


Ffordd Caergybi
Ffordd Deiniol
Ffordd y Traeth
Stryd Fawr
Cyrchfannau Allweddol
Adiladau Presennol
Prifysgol
Mathau eraill o addysg
Hamdden
Siopa
Gorsaf Drenau
Archfarchnadoedd
Prif fynedfedd
Mynedfa'r Orsaf

Mae'r farchnad swyddfeydd masnachol ym Mangor yn amlweddog, er rhywfaint yn fach. Mae'n cynnwys busnesau SME preifat mewn unedau bach, asiantaethau a mentrau sector cyhoeddus sydd yn gysylltiedig â (neu o fewn) y Brifysgol. Mae'r farchnad swyddfeydd masnachol ym Mangor hefyd yn elwa o leoliad y Brifysgol yn y ddinas, gyda gofod swyddfa'n cael ei gymryd gan ddefnyddwyr y Brifysgol neu endidau perthynol. Fodd bynnag, ystyrir ei fod yn sector nad yw'n cael ei gynrychioli ddigon, o gymharu â threfi prifysgol eraill. Gallai cydweithrediadau'r sector cyhoeddus gyda'r Brifysgol ei archwilio a'i wella ymhellach, a fyddai'n arwain at alw pellach am ofod swyddfa masnachol yng nghanol y ddinas. Gallai gofod swyddfa sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol ymddwyn fel cyswllt rhwng canol y ddinas a'r Brifysgol.

Mae'n bwysig deall y cyrchfannau allweddol mewn dinas, o safbwyntiau preswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r llefydd hyn yn allweddol i ddatblygiad lle, gan eu bod yn ymddwyn fel magnetau i dynnu ymwelwyr a buddsoddiad i mewn i'r ardal leol. Mae'r cynllun ar ochr dde'r dudalen yn dangos sut bod gan ganol Bangor nifer o gyrchfannau, gan gynnwys siopa, diwylliant a chyfleusterau addysg.

Fodd bynnag, fel mae dadansoddiad mwy manwl yn dangos ymhellach ymlaen yn yr adran hon, weithiau nid yw'r rhain yn gysylltiedig ac nid ydynt yn elwa o'u pellter a'r effaith 'clystyru' fel y gallant. Gallai gwelliannau i dir y cyhoedd fod yn bwysig o ran mynd i'r afael â hyn. O ran ymwelwyr â'r ddinas, y cyfleoedd diwylliannol a siopa yng nghanol y ddinas yw'r dynfa fwyaf ar hyn o bryd, ac mae'r Brifysgol hefyd yn atyniad mawr i'r rheini sy'n dod i astudio neu weithio ym Mangor.

Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran pwytho'r campws ynghlwm â gweddill y ddinas, megis drwy Ganolfan Pontio, gellid cael mwy o fuddion drwy wneud rhagor.

O ganlyniad i'r topograffi naturiol o gwmpas y ddinas a'r ffordd y mae'r rheilffordd yn teithio trwy'r canol, mae tair prif fynedfa sy'n dylanwadu ar yr ymdeimlad o gyrraedd a lefel y cyfleustod ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Dyma'r gyffordd rhwng Ffordd y Traeth a'r Stryd Fawr yn y gogledd ddwyrain, y gyffordd rhwng Ffordd Caergybi a Ffordd Siliwen yn y gogledd orllewin a'r gyffordd rhwng y Stryd Fawr a'r A5 ger pont y rheilffordd. Gall gwelliannau yn yr ardaloedd hyn gael effeithiau arwyddocaol ar sut mae pobl yn cael mynediad i'r canol a'r cyfan sydd ganddo i'w gynnig. Yn ogystal â'r rhain, mae'r orsaf hefyd yn rhoi mynedfa allweddol i'r ddinas ac yn effeithio ar brofiad cyntaf nifer o ymwelwyr â'r ddinas. Gall gwelliannau yma hefyd helpu i effeithio ar y potensial ar gyfer rhwydwaith drafnidiaeth aml-ddull yn y dyfodol.

## Tai, Iechyd a Llesiant

Er nad bwriad yr ymarferiad prif gynllun oedd edrych ar ddyraniadau tai na chyflwr tai ac ardaloedd preswyl yn y canol, crynhoir rhywfaint o wybodaeth am ddyraniadau cyfredol a cheisiadau cyfredol am ganiatâd cynllunio yn yr adran Datblygu a'r Amgylchedd. Nodwyd hefyd bod cyfran y llety preswyl ar loriau uwch ar hyd y Stryd Fawr yn is na'r hyn y gellir ei ddisgwyl mewn lleoliadau tebyg. Codwyd hyn hefyd gan aelodau o'r gymuned mewn digwyddiadau ymgynghori, ynghyd â thystiolaeth (anecdotaidd) o alw am unedau preswyl llai ar gyfer pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ifanc.

Ynghyd â thai, y ddau ffactor arall sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant pobl yw trafnidiaeth a mynediad i fannau gwyrdd. Mae gan Fangor amrywiaeth o fannau agored, gan gynnwys parciau a gerddi, llecynnau amwynder a mannau agored mwy naturiol. Fodd bynnag, oherwydd topograffi naturiol y ddinas, nid yw'r rhain bob amser yn hygyrch i bob aelod o'r cyhoedd. Gallai gwell isadeiledd, cyfleusterau ac arwyddion arwain at fwy o ddefnydd o'r ardaloedd hyn gan gynyddu buddion iechyd a llesiant. Yn ogystal, gallai darparu gofod cyhoeddus o ansawdd uchel yng nghalon y ddinas ychwanegu at hygyrchedd a phresenoldeb natur yn y ddinas.

O ran mynediad i'r ddinas, mae nifer o lwybrau cerdded a beicio yn rhedeg drwy'r canol. Fodd bynnag, fel y gellir gweld ar y cynllun ar dudalen 20, mae rhai o'r llwybrau hyn yn droellog ac mae ganddynt lefelau amrywiol o isadeiledd beicio. Er efallai nad yw'n bosib nac yn briodol darparu un math o isadeiledd ar draws y ddinas, gellir canolbwyntio mwy ar y prif goridorau i feicwyr a cherddwyr i sicrhau bod y rhain yn caniatáu i bobl symud drwyddynt yn ddirwystr.

Ar gyfer mynediad cerbydol, yr A5, Ffordd Caernarfon a Ffordd Caergybi yw'r prif ffyrdd i mewn i'r canol, a Ffordd Deiniol yn gwasanaethu fel prif ffordd ddosbarthu ar gyfer ffyrdd a lonydd mwy lleol ar bob ochr. Mae canol Bangor hefyd yn cynnwys nifer o feysydd parcio aml-lawr ac arwyneb. Mae cyfanswm y llefydd sydd ar gael yng nghanol Bangor oddeutu 1,500, sy'n darparu digon o lefydd i'r rheini sy'n dod i siopa yn y canol, er bod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod llefydd parcio hefyd yn cael eu defnyddio gan bobl sy'n gweithio yn y canol ac yn y Brifysgol.


Ffordd Caergybi
Ffordd Deiniol
Ffordd y Traeth
Stryd Fawr
Seilwaith Gwyrdd
Man Agored Cyhoeddus
Man Agored
Cwrs golff
Coetir
Adeiladau Presennol




**Symudiad/Cysylltiadau i Gerddwyr**

- Cerddwyr/Beiciau Yn Unig
- Llwybr a rennir gan gerddwyr a beicwyr
- Llwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus
- Lonydd Beicio Ar Ffordd
- Lonydd Beicio Ar Wahân Ar Ffordd
- Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol
- Ffyrdd A
- Strydoedd Lleol
- Isffyrdd
- Stryd i Gerddwyr
- Adeiladau Presennol




## Symudiadau Car

- Ffyrdd A
- Strydoedd Lleol
- Isffyrdd
- Stryd i Gerddwyr

**Rheilffordd**

- Aml-gledr
- Twnel
- Adeiladau Presennol
- Coetir
- Meysydd Parcio

| | Meysydd Parcio | Gallu |
|---|---|---|
| **P1** | Gorsaf Drenau | 270 |
| **P2** | Kyffin | 102 |
| **P3** | Minafon | 58 |
| **P4** | Bryn Castell | 30 |
| **P5** | Bangor | oddeutu 100 |
| **P6** | Glanrafon | 56 |
| **P7** | Canolfan Siopa Deiniol | 120 |
| **P8** | Ganoniaeth | 38 |
| **P9** | M&S | 38 |
| **P10** | Plas Llwyd | 103 |
| **P11** | Canolfan Menai | 417 |
| **P12** | Stryd James | 44 |
| **P13** | Dwyrain Ffordd y Traeth | 60 |
| **P14** | Gorllewin Ffordd y Traeth | 43 |

## Datblygu a’r Amgylchedd

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLl ar y Cyd) yw’r brif ddogfen polisi cynllunio sy’n berthnasol i dwf ac adfywiad canol dinas Bangor. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd ar 31 Gorffennaf 2017 ac mae’n ffurfio sail ar gyfer cynllunio defnydd tir a gwneud penderfyniadau ledled Bangor a’r ardaloedd awdurdod lleol ehangach.
Mae’r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn cyd-fynd â’r CDLl ar y Cyd mewn perthynas ag amrediad o feysydd polisi, ynghyd â Briff Datblygu Bangor 2009, a fabwysiadwyd gan y Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd gynt. Disgwylir i Ganllawiau Cynllunio Atodol pellach gael eu mabwysiadu yn ystod cyfnod y cynllun.

Yn y CDLl ar y Cyd, mae’r Weledigaeth ar gyfer Bangor yn datgan:


> *“Bydd dinas Bangor wedi cadw a chryfhau ei swyddogaeth fel canolfan isranbarthol, sy’n gartref i amrywiaeth o ddatblygiadau preswyl, Prifysgol a Choleg, datblygiadau busnes a diwydiannol, a chyfleoedd treftadaeth, diwylliannol, hamdden a masnachol, gan sicrhau bod amddifadedd yn lleihau. Bydd ei berfformiad manwerthu wedi gwella er mwyn cefnogi ei swyddogaeth fel canolfan siopa isranbarthol. Bydd yn cymryd mantais o’i hygyrchedd drwy reilffordd Gogledd Cymru a’r A55.”*

Ymwneir â datblygiadau yng nghanol y ddinas yn benodol ym Mholisïau PS15 (Canol Trefi a Manwerthu) a Pholisi MAN1 (Datblygiadau Arfaethedig mewn Canol Trefi). Ar y cyfan, disgwylir darparu 7,913m2 o ofod llawr nwyddau cymharol, neu 85% o’r cyfanswm a gynlluniwyd ar gyfer ar draws y ddwy sir yn y CDLl mewn lleoliadau priodol ym Mangor. Mae Polisi MAN 2: Prif Ardaloedd Manwerthu (y Craidd Manwerthu) hefyd yn berthnasol, sy’n anelu i ddiogelu canol y ddinas fel canolfan fanwerthu. Mae blaenoriaethau eraill ar gyfer datblygiadau canol tref sy’n berthnasol i ganol dinas Bangor yn cynnwys:

- Annog cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau addas sy’n denu

  ystod eang o bobl ar wahanol amseroedd o’r dydd;
- Gwrthsefyll datblygiadau sy’n tynnu oddi ar eu bywiogrwydd a’u hyfywdra;
- Gwrthsefyll colli unedau manwerthu yn y Prif Ardaloedd Manwerthu;
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ailddefnyddio adeiladau addas o fewn canol trefi;
- Annog cysylltiadau cynaliadwy rhwng y gweithle, y cartref a chanol trefi.

There are a number of areas around Bangor which are considered sensitive, and are covered by national environmental designations however these are mostly contained within the Menai Strait, Hirael Bay and the coastline area around the two. Areas around the centre of the city are not considered sensitive from an environmental perspective however they are part of the Bangor Conservation Area and contain a number of listed buildings, including the Grade I listed Arts Building and Bangor Cathedral. The area at the top of Upper Bangor is also designated as a Scheduled Monument due to it being the site of a Roman Camp.





**Mae cyfyngiadau hyfywdra arwyddocaol i adfywiad y safleoedd tir llwyd neu ganol y ddinas.**




**Cynllunio**

- Dyraniad Preswyl
- Cymeradwywyd ac Adeiladwyd
- Cymeradwywyd a Heb ei Weithredu
- Cais Byw
- Safle Cyflogaeth wedi'i Ddiogelu




**Dynodiadau**

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig
- Parth Llifogydd 2 a 3
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Prif Afonydd
- Adeiladau Presennol
- Coetir


Gwersyll Rhufeinig
Ffordd Caergybi / Holyhead Road
Ffordd y Coleg / College Road
Ffordd Garth / Garth Road (A5)
Ffordd y Traeth / Beach Road (A5)
Stryd Fawr / High Street
Ffordd Deiniol / Deinial Road (A5)
Ffordd Caergybi / Holyhead Road
Ffordd Ffriddoedd / Ffriddoedd Road
A4087
Treftadaeth
Gradd Adeilad Rhestredig
I
II
II*
Ardaloedd Cadwraeth
Henebion Cofrestredig

# 2.3. Ymgysylltiad Rhan-ddeiliaid

Dros gyfnod o ychydig fisoedd yn unig, mae unigolion a sefydliadau wedi gweithio gyda'i gilydd i osod y weledigaeth a chytuno ar y prif gynllun uchelgeisiol. Mae'r weledigaeth a'r gyfres o brosiectau yn y ddogfen hon yn ganlyniad proses rhan-ddeiliaid. Roedd hyn yn gwneud y defnydd gorau o wybodaeth fanwl o fewn y ddinas, gan hefyd ddod â rhywfaint o'r arbenigedd allanol gorau mewn perthynas â gweledigaethau i ddinas a chynllunio datblygiad yn y wlad.

## Wythnos Cynllunio'r Prif Gynllun

Cynhaliwyd Wythnos Cynllunio'r Prif Gynllun ym Mangor o 1 i 5 Ebrill 2019.

Cynhaliwyd diwrnod o gyfarfodydd cyn gweithdai'r Wythnos Fawr, ar 19 Mawrth 2019, i sefydlu rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar y ddinas a chasglu mwy o enwau rhan-ddeiliaid i'w gwahodd i'r gweithdy. Bu i LDA Design gwrdd ag Elope, Cyfadran Ystadau Prifysgol Bangor, y Grŵp Mynediad a Chysylltiadau ac aelod o'r adran gynllunio yng Nghyngor Gwynedd.

Mynychodd grŵp amrywiol o ran-ddeiliaid Wythnos Cynllunio'r Prif Gynllun a oedd yn gynrychiolwyr o Brifysgol Bangor, Undeb y Myfyrwyr, Cyngor y Ddinas, Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, GIG, BID Bangor, y Gadeirlan, Canolfan Gelfyddydau Pontio, Sustrans, Storiel, ysgolion lleol, landlordiaid, nifer o fusnesau ac elusennau yn y ddinas.

Roedd rhaglen yr Wythnos Cynllunio'r Prif Gynllun yn cynnwys deuddydd a hanner o weithdai a chyfarfodydd gyda rhan-ddeiliaid, diwrnod a hanner pan atgyfnerthodd LDA Design a PJA yr wybodaeth a dderbyniwyd, a diwrnod terfynol pan gasglodd rhan-ddeiliaid ynghyd eto am y cyflwyniad adborth a roddwyd gan LDA Design.


Canolbwyntiodd y gweithdai ar dair prif thema a sefydlwyd yn Strategaeth a Gweledigaeth Bangor yn Rhagfyr 2016. Dechreuodd LDA Design yr wythnos drwy roi cyflwyniad i'r Bartneriaeth Strategol. Dilynwyd hyn gan y gweithdy cyntaf a oedd yn mynd i'r afael ag Economi a Hyrwyddo. Yn ystod ail ddiwrnod, cynhaliwyd dau weithdy; roedd y cyntaf ar Iechyd, Tai a Llesiant, a'r ail ar Ddatblygiad a'r Amgylchedd. Roedd sesiwn galw heibio yn agored i'r cyhoedd gyda'r nos a oedd yn caniatáu i bobl eraill ddod a thrafod eu syniadau a'u barn. Yn ystod y trydydd diwrnod, mynychodd myfyrwyr o Ysgol Friars weithdy, a chynhaliwyd trafodaethau pellach gyda rhan-ddeiliaid unigol.

Yn ystod y gweithdai, trafodwyd ystod anhygoel o bynciau, cynigiwyd datrysiadau a nodwyd blaenoriaethau ar gyfer y prif gynllun.

## Cyfranogiad Parhaus y Bartneriaeth Strategol


Yn dilyn y gwaith Prif Gynllunio Mawr, paratôdd y Tîm Dylunio Ddogfen Prif Gynllun ddrafft gyda chyfres o brosiectau, a chyflwynwyd y rhain i'r Bartneriaeth Strategol ar 22 Mai 2019. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cynhaliodd y Bartneriaeth Strategol drafodaethau pellach gyda rhan-ddeiliaid ym Mangor, ac yna bwydo'n ôl ar y prosiectau a ffafrir a threfn blaenoriaeth i'r Tîm Dylunio. Bu iddynt gynnal cyfarfod pellach gyda'r Tîm Dylunio ar 31 Gorffennaf 2019 i gytuno ar y ddau brosiect blaenoriaeth y byddai'r tîm dylunio'n paratoi cynlluniau manwl ar eu cyfer. Mae'r ddau brosiect hyn wedi'u nodi mewn manylder yn Adrannau 3 a 4 y ddogfen hon. Mae'r prosiectau dethol wedi'u cynnwys yn yr atodiadau i'w datblygu yn y dyfodol.

Yr Wythnos Fawr ac ymgysylltiad rhan-ddeiliaid ▶


Too long a walk
Caernarfon road
TKMAXX
could make the walk slightly nicer.
2 • Make Highstreet look nicer - Heritage
Uniform - all the same.
flowers
Different colours
benches
3 • Modern city tucked in a rural landscape.
• Tourists may want to visit a modern, cle
city but still experience the rural
side of things. Just 10 minutes t
Snowdonia.







what does this mean for local community?






TOP 5
BANGOR X LDA
HIDDEN BANGOR
CONNECTIONS
IDENTITY CRISIS
Resistant to change

## Gweithdy Economi a Hyrwyddo

Roedd y gweithdy cyntaf allan o dri yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag economi Bangor a'r heriau posib i'r dyfodol, ar sut mae Bangor yn gosod ei hun wrth symud ymlaen a lle mae cyfleoedd yn bodoli i'r ddinas er mwyn datblygu busnesau newydd, a hyd yn oed hunaniaeth newydd. Roedd trafodaethau hefyd yn canolbwyntio ar yr isadeiledd a newid yn y ffordd o fyw y byddai ei angen er mwyn cefnogi'r trawsnewidiad i'r math o le y mae Bangor wedi newid iddo. Ar ddiwedd y gweithdy, pleidleisiodd cyfranogwyr ar y prosiectau pwysicaf i'w symud ymlaen, yn eu barn nhw. Yn eu trefn, dyma'r tri a ddaeth i'r brig:

1. Mwy o bobl yn byw yng nghanol y ddinas
2. Cysylltedd gyda llefydd eraill - Bangor fel canolfan, dylai'r profiad ddechrau yma
3. Y Ddinas fwyaf Cymraeg yng Nghymru

Crynhoir rhestr o brosiectau a mentrau eraill a drafodwyd ar y dudalen gyferbyn, heb fod mewn trefn arbennig.



**Gweithdy Economi a Hyrwyddo**

## Gweithdy Economi a Hyrwyddo

### **Beth ddywedoch chi** What you told us

**Gwneud y ddinas yn fwy carbon isel**
Make more low carbon

**Gwella cysylltiadau cludiant**
Better transport links

**Gwrthdroi'r 'effaith doughnut'**
Reverse 'doughnut effect'

**Lleoliad naturiol unigryw**
Unique natural setting

**Gwneud Bangor yn llai cuddiedig**
Make Bangor less hidden

**Ailddarganfod y glannau**
Rediscover the waterfront

**Edrych yn well, teimlo'n well ar gyfer byd sy'n esblygu**
Look better, feel better for an evolving world

**A yw hi'n ddinas dysg?**
Is it a city of learning?

**Creu hunaniaeth gryfach**
Create stronger identity

**Darganfod rhagor o'i threftadaeth**
Discover more of its heritage

**Dod yn ganolfan ar gyfer lles**
Become a centre for well-being

**Cludiant gwyrddach, llai o geir**
Greener transport, fewer cars

**Rhyngwladol ac amrywiol**
International and diverse

**Dinas Eryri ac Ynys Môn – mynyddoedd a môr**
City of Snowdonia and Anglesey – mountains and sea

**Mae ganddi'r holl gynhwysion**
Has all the ingredients

**Dinas hynaf Cymru**
Oldest city in Wales

**Datblygu addysg brifysgol yn wahanol**
Evolving university learning differently

**Mae angen profiad cyrraedd**
Needs an arrival experience

**Gwell cyfeiriadaeth**
Better orientation

**Busnesau yn hunan-fuddsoddi yn eu hadeiladau**
Self-investment of businesses in their premises

**Gwersylla yn y ddinas – glampio – rhagor o westai**
Camping in the city - glamping – more hotels

## Gweithdy Tai, Iechyd a Llesiant

Roedd yr ail weithdy yn canolbwyntio ar yr heriau iechyd a'r cyfleoedd i gynyddu teithio llesol ym Mangor. Cafwyd trafodaeth hefyd ar y problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, megis yr argyfwng tai. Ar ddiwedd y gweithdy, pleidleisiodd cyfranogwyr ar y prosiectau pwysicaf i'w symud ymlaen, yn eu barn nhw. Yn eu trefn, dyma'r tri a ddaeth i'r brig:

1. Canolfan iechyd newydd
2. Canolfan i'r digartref
3. Gwella llwybrau beicio trwy'r ddinas

Crynhoir rhestr o brosiectau a mentrau eraill a drafodwyd ar y dudalen gyferbyn, heb fod mewn trefn arbennig.



**Gweithdy Tai, Iechyd a Llesiant**

# Gweithdy Tai, Iechyd a Llesiant

## **Beth ddywedoch chi** What you told us

**Mae HMOs yn dod ar gael ar gyfer cartrefi i deuluoedd**
HMOs are becoming available for family housing

**Gwella rôl a chysylltiadau mannau agored**
Improve role and connections of open spaces

**Rhagor o ganolfannau ieuenctid a chymuned**
More youth and community centres

**Potensial ar gyfer Bryn Cegin fel hwb cludiant**
Potential for Bryn Cegin as transport hub

**Llai o dagfeydd traffig**
Less traffic congestion

**Gwell cysylltiadau â'r orsaf drenau**
Better links to train station

**Gwella cysylltiadau â Maesgeirchen**
Improve connections to Maesgeirchen

**Dulliau newydd o ddenu pobl i Fangor**
New ways to attract people to Bangor

**Gweithleoedd deniadol newydd**
New attractive workspaces

**Coleg addysg bellach yn adleoli allan o'r dref**
Further education college relocating out of town

**Llogi beiciau trydan**
Electric bike hire

**Potensial ar gyfer Pontio**
Potential for the Pontio

**Rhagor o lefyd i weithio ar y cyd**
More co-working spaces

## Gweithdy Datblygu a'r Amgylchedd

Roedd y gweithdy olaf yn canolbwyntio ar ansawdd ac argaeledd gofod agored o ansawdd uchel a sut y gallai datblygiad y ddinas helpu i wella'r rhain. Roedd trafodaethau hefyd yn amgylchynu o gwmpas dulliau amgen o ran trafnidiaeth a sut y gellir lleihau effaith negyddol trafnidiaeth o fewn y ddinas. Ar ddiwedd y gweithdy, pleidleisiodd cyfranogwyr ar y prosiectau pwysicaf i'w symud ymlaen, yn eu barn nhw. Yn eu trefn, dyma'r tri a ddaeth i'r brig:

1. Digwyddiadau anhygoel newydd a gofod yn y farchnad
2. Gwella mannau gwyrdd canolog
3. Ychwanegu defnyddiau newydd mewn mannau gwyrdd ger y glannau

Crynhoir rhestr o brosiectau a mentrau eraill a drafodwyd ar y dudalen gyferbyn, heb fod mewn trefn arbennig.



**Gweithdy Datblygu a'r Amgylchedd**

## Gweithdy Datblygu a'r Amgylchedd

### **Beth ddywedoch chi** What you told us

**Llecynnau gwyrdd wedi'u cysylltu'n well**
Better connected green spaces

**Mwy o fynediad at fynydd Bangor**
More access to Bangor mountain

**Hwb iechyd newydd**
New health hub

**Rhwystr llanw a gwella ynni a risgiau llifogydd**
Tidal barrier and improve energy and flood risk

**Cysylltu Bangor Uchaf â'r Stryd Fawr**
Connect Upper Bangor to the Y STRYD FAWR

**Marchnad Ffermwyr yn y canol**
Farmers Market in centre

**Mae Ffordd Deiniol yn rhwystr yng nghanol y ddinas**
FFORDD DEINIOL is a barrier in city centre

**Mae angen mesurau arafu traffig yn yr orsaf**
Traffic calming needed at the station

**Potensial ar gyfer parcio a theithio**
Potential for park and ride

**Gwella'r llecyn o amgylch y pier**
Improve area around the pier

**Gwneud rhagor o Wersyll y Rhufeiniaid**
Make more of Roman Camp

**Seiclwyr ar y Stryd Fawr**
Cyclists on Y STRYD FAWR

**Gwasanaeth bws gwell i Faesgeirchen**
Better bus link to Maesgeirchen

**Dylai Ffordd Deiniol fod â choed a dylai fod yn fwy addas i gerddwyr**
FFORDD DEINIOL to have trees and be more pedestrian friendly

**Rhoi Ffordd Deiniol y tu allan i Pontio mewn twnel**
Culvert FFORDD DEINIOL outside the Pontio

**Tacsis ar y dwr a gwasanaethau cychod, er enghraifft, i Fiwmares**
Water taxis and boat services for example to Beaumaris


# 2.4. Safleoedd Datblygu Allweddol

Mae'r safleoedd a ganlyn yn cyflwyno cyfleoedd i ychwanegu defnyddiau newydd i'r ddinas a llenwi bylchau cyfredol yn y ffurf drefol a defnyddiau sy'n ddiffygiol ym Mangor. Dyma'r prosiectau a gynigir yn y dogfennau, a gallant helpu i weithredu'r newidiadau angenrheidiol. Mae'r safleoedd hyn wedi cael eu hadnabod dim ond ar sail eu lleoliad a'r potensial ymddangosiadol i ddatblygu neu ddwysau, ac nid oes bwriad eu darllen fel dyraniadau. Mae'r crynodebau a ganlyn yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth ychwanegol i bob un o'r safleoedd a ddangosir yn y cynllun dros y dudalen.

1. Yr ardal y tu ôl i'r orsaf drenau a depo'r Post Brenhinol - cyfle ar gyfer datblygiad defnydd cymysg, tir llwyd gyda halogiad hanesyddol posib a chyfyngiadau llifogydd, angen ystyried cynlluniau'r Post Brenhinol ar gyfer y depo, potensial i greu cysylltiad beicio newydd dros y rheilffordd.
2. Y tir i'r de o Lôn Cwfaint - cyfle ar gyfer cynllun tai / defnydd cymysg bychan, angen ystyried cynlluniau'r preswylwyr cyfredol a'r topograffi heriol.
3. Cornel Ffordd Deiniol a Ffordd Farrar - safle gwag, sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl yn ddiweddar.
4. Ardal Arloesedd - cyfleoedd ar gyfer prosiectau datblygu campws dan arweiniad y Brifysgol.
5. Cornel Ffordd Deiniol/Ffordd Sackville - cyfle ar gyfer eiddo masnachol wedi'i leoli'n sensitif, angen ystyried coed gyda gorchymyn gwarchod coed, prosiect posib mwy hirdymor, i alluogi i'r coed ddod i ddiwedd eu hoes.
6. Safle Cornel Asda - cyfle ar gyfer defnydd cymysg neu brosiect dan arweiniad y brifysgol, safle pwysig o safbwynt cyrraedd canol Bangor.
7. Adeilad blaenorol y swyddfa bost - cyfle i drosi'r adeilad presennol i mewn i ddefnydd masnachol neu gymysg, mae'r adeilad yn rhestredig, felly mae angen ystyried yr addasiadau yn ofalus.
8. Adeilad Neuadd Garth ar Ffordd y Coleg - prosiect campws prifysgol posib ar gyfer llety myfyrwyr.
9. Safle Aldi - potensial ar gyfer defnyddiau amgen, megis addysg neu ddefnydd cymdeithasol/cymunedol gydag adeiladau/strwythurau ystyrlon. Cyfle i gael blaen o ansawdd gwell i'r adeiladau ar Ffordd Deiniol.
10. Safle Stryd y Deon - cyfle i ddwysau neu uwchraddio cyfleusterau cyfredol y brifysgol.
11. Pwll nofio a'r orsaf dân - cyfle ar gyfer safle ddatblygu mwy sylweddol ar gyfer preswylwyr, angen ystyried adleoli'r orsaf dân, cynlluniau hirdymor ar gyfer y pwll nofio, halogiad posib o'r orsaf dân gyfredol a phroblemau llifogydd, gellir cyflawni hyn gyda'r safle cyfagos i'r gorllewin o Ffordd Friars.
12. Tir i'r gorllewin o Ffordd Friars - yn cynnwys tir wedi'i glirio a Modurdy Ambiwlans cyfredol, angen ystyried lleoliad amgen ar gyfer y modurdy ac unrhyw halogiad posib o ddefnyddiau cyfredol a blaenorol, llifogydd yn ogystal â strategaeth ar gyfer datblygiad y glannau ehangach. Mae posib ei ystyried fel safle mwy gyda'r pwll nofio/gorsaf dân cyfagos.
13. Safle datblygiad preswyl Watkin Jones - safle cais diweddar ar gyfer fflatiau a thai, materion i'w hystyried yn cynnwys dyheadau datblygiad glannau ehangach a'r angen i barhau â'r cysylltiad i gerddwyr ar hyd y glannau.
14. Safleoedd modurdai cyfredol ar hyd Ffordd y Traeth - cyfle i ddarparu mewnlenwad defnydd cymysg neu breswyl ar ddau safle ar hyd Ffordd y Traeth, i gyfrannu at y strategaeth adfywio'r glannau ehangach, angen ystyried cynlluniau hirdymor y busnesau modurdai cyfredol a phroblemau llifogydd.
15. Promenâd Bangor - cyfle ar gyfer rhywfaint o gynnig bwyd môr arbenigol a diod, gyda thir y cyhoedd o ansawdd uchel a seddi i hwyluso trawsffurfiad yr ardal. Mae'r materion i'w hystyried yn cynnwys y cynllun atal llifogydd a thir halogedig posib.
16. Cornel y Stryd Fawr/Stryd Strand - safle cais cynllunio cyfredol ar gyfer datblygiad preswyl, mae'r safle'n cynnig cyfle i ailystyried mynediad ar y rhan hon o'r stryd fawr.




**Safleoedd Allweddol**


School
NHS
meeting point
University
DA
bus
fav in bangor
Blue sky
Pontio
favorit place anywere = The Highlands of Scotland
TESCO
M

# 3.0 Bangor - Dinas Fach Fyd-eang

# 3.1. Gweledigaeth

Mae'r weledigaeth i Fangor yn hyrwyddo'r dull holistaidd a nodwyd yn Strategaeth a Gweledigaeth Bangor (Rhagfyr 2016). Fe'i priodolwyd i wneud y mwyaf o brif swyddogaeth Bangor fel canolfan is-ranbarthol Gwynedd ac Ynys Môn, gan gydnabod ei chryfderau cynhenid a'i photensial cuddiedig a chael gwared â'r elfennau negyddol sydd wedi cau am y Ddinas ers degawd a mwy. Pe cyflawnir y gwaith hwn yn llawn, gall Bangor ddatblygu i fod yn un o Ddinasoedd Gorau Cymru; yn cynnig yr amrediad llawn o rinweddau a chyfleusterau sy'n perthyn i Ddinas Dda; ond â chyfoeth o dreftadaeth Gymraeg a Cheltaidd yn treiddio drwyddi.

Sefydlodd Strategaeth a Gweledigaeth 2016 dair thema gyd-ddibynnol: Datblygu a'r Amgylchedd; Economi a Hyrwyddo; Tai, Iechyd a Llesiant. Dyma'r un themâu a ddefnyddiwyd ar gyfer testunau gweithdy Wythnos Cynllunio'r Prif Gynllun.

Mae Datblygu a'r Amgylchedd yn ystyried datblygiad, yr amgylchedd adeiledig, tir y cyhoedd a thrafnidiaeth a mynediad i gerddwyr. Mae Economi a Hyrwyddo yn edrych ar gefnogaeth fusnes, marchnata a hyrwyddo a digwyddiadau. Mae Tai, Iechyd a Llesiant yn canolbwyntio ar adfywio a thyfu'r stoc dai yn y ddinas, yn ogystal â mentrau i gefnogi amodau byw mwy cynaliadwy ac iachach, a mynediad i wasanaethau iechyd a llesiant.

Bydd yr unfed ganrif ar hugain yn oes y Ddinas Fawr lle, erbyn 2050, yn ôl pob sôn bydd 75% o boblogaeth y byd yn byw mewn dinasoedd. Ym Mhrydain, mae ein dinasoedd mawr yn parhau i dyfu a dwysau. Mae dinasoedd megis Manceinion a Lerpwl, a oedd ar un cyfnod yn dioddef dirywiad yn eu poblogaeth, yn denu pobl yn ôl i mewn i'r canol. Beth mae hyn yn ei olygu i ddinasoedd bach fel Bangor?

Bangor yw dinas hynaf Cymru, yn dyddio'n ôl i'r chweched ganrif. Bangor hefyd yw un o ddinasoedd lleiaf Prydain, gyda phoblogaeth o oddeutu 18,000 o bobl, a hanner y rheini'n fyfyrwyr. Yn bendant, dyma ddinas fwyaf Cymraeg Cymru, gydag oddeutu hanner y boblogaeth nad ydynt yn fyfyrwyr yn siarad Cymraeg. Mae Bangor hefyd yn fwy diarffordd na nifer o ddinasoedd Prydain, cryn bellter o ardaloedd trefol mawr a dinasoedd mwy Prydain.

Bangor - dinas fach fyd-eang - dyma ein gweledigaeth o'r hyn y gallai Bangor fod yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n dathlu syniad o ddinas fach, lle sy'n fach o ran graddfa, y gellir ei deall yn hawdd, sy'n gywasgedig ac wedi'i chysylltu'n dda; lle y mae cymunedau amrywiol y ddinas yn gallu ymgynnull a mwynhau rhai o rinweddau gorau bywyd dinas, ond hefyd deimlo cyswllt gyda natur a thirlun ac arfordir syfrdanol Gogledd Cymru.

Mae hefyd yn dathlu Bangor fel cyfnewidfa fyd-eang; hynny yw, cyfnewid syniadau, gwybodaeth, diwylliant ac iaith, i mewn ac allan o Fangor a Chymru. Mae hyn yn ei wneud yn wahanol i dref. Allgymorth dinas fel Bangor sy'n ei gwneud yn wahanol. Wrth i Fangor groesawu myfyrwyr a phreswylwyr o bedwar ban byd i'r gornel hon o Gymru, ar yr un pryd mae'n allforio pobl wych a gwybodaeth o safon a phrofiad byd-eang i bob cwr o'r byd. Mae'n dathlu Cymreictod, iaith a diwylliant Cymraeg ac yn mewnblannu fel rhan o'r allgymorth rhyngwladol hwn.

Rydym am roi pobl wrth wraidd y weledigaeth. Dinasoedd yw'r llefydd gorau lle mae pobl yn casglu ynghyd, a lle mae potensial gan fodau dynol a chynnydd cymdeithasol; ond ar yr un pryd, gallant fod yn llefydd afiach, anghyfiawn sy'n achosi straen hefyd. Mae gan y model Dinas Fach Fyd-eang y potensial i roi pobl wrth wraidd popeth, gan fynd i'r afael â phroblemau digartrefedd, unigedd ac unigrwydd, fforddiadwyedd, iechyd a llesiant. Mae Dinas Fach Fyd-eang yn ddinas hapus.

Yn reddfol, mae dinasoedd yn beiriannau awchus sy'n amsugno adnoddau naturiol, gan lygru aer a dŵr yn y broses a rhoi galw cynyddol ar y blaned drwy ddefnyddio ynni a chreu gwastraff. Gall Dinas Fach Fyd-eang fel Bangor lywio newid mewn ymddygiad drwy helpu ei ddinasyddion i fyw bywyd symlach ac arafach, defnyddio llai o bethau, amddiffyn a datblygu adnoddau naturiol a lleihau'r defnydd o ynni. Mae lleoliad anhygoel Bangor rhwng y môr a'r mynyddoedd a'i leoliad naturiol hoffus yn rhywbeth pwerus i atgoffa dinasyddion o ba mor fregus a gwerthfawr yw'r blaned.

Mewn byd lle mae maint yn bwysig ac yn oes y Ddinas Fawr, rydym am ddathlu swyddogaeth Dinas Fach Fyd-eang.

# 3.2. Amcanion y Weledigaeth - Y Pum Elfen

## Y Mynyddoedd a'r Môr;

* Dathlu'r glannau prydferth a'r mynyddoedd yn y cefndir;
* Gwella cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr rhwng yr amgylchedd naturiol a chanol y ddinas;
* Creu coridor gwyrdd o'r Gwersyll Rhufeinig, drwy wraidd y ddinas ac i fyny Mynydd Bangor.




Diagram y Mynyddoedd a'r Môr

## Syniadau ac Archwilio

* Fel dinas dysg, annog ffyrdd o ddefnyddio'r wybodaeth honno i newid y byd;
* Datblygu adran arloesedd sy'n cwmpasu campws gwyddoniaeth a thechnoleg y brifysgol sy'n tyfu, ynghyd ag ardal yr orsaf;
* Creu gofod gwaith o gwmpas yr orsaf sy'n annog entrepreneuriaid yn ogystal â phobl i ddysgu a datblygu syniadau newydd i aros ym Mangor;
* Archwilio cryfderau'r brifysgol megis gwyddorau'r môr;
* Annog buddsoddiad yn y ddinas er mwyn datblygu'r Stryd Fawr, nid yn unig fel lle i siopa ond hefyd fel lle i fwyta, yfed, mwynhau gweithgareddau diwylliannol a hamdden a byw uwchben y siopau.




Diagram Syniadau ac Archwilio

## Dinas Iach

- Fel dinas fechan gyda gosodiad naturiol, gall Bangor ddatblygu fel dinas iach drwy wella ffyrdd i symud o gwmpas yn ddiogel ac yn rhwydd;
- Gwella'r rhwydwaith beicio ar draws y ddinas gyfan;
- Dylid cyfathrebu'r modd y gellir cyrraedd y nifer o lefydd heddychlon, prydferth yn y ddinas ac o'i hamgylch yn gliriach drwy arwyddion, mapiau ac apiau;
- Archwilio swyddogaeth technoleg drwy ddefnyddio apiau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, boed hynny ar gyfer symud o gwmpas drwy ffurfiau llesol o deithio, siopa am fwyd iach, ymarfer corff neu wybodaeth am y Ganolfan Iechyd arfaethedig.





Diagram Dinas Iach

## Teg a Chyfiawn

* Gweithio tuag at roi cyfleoedd mwy cyf… i bawb yn y ddinas drwy addysg a thai;
* Gwella cyfathrebu drwy ymyraethau cc… a hefyd drwy ledaenu gwybodaeth gan ddefnyddio technoleg fel bod rhai cymu… teimlo'n llai ynysig ac anghysylltiedig;
* Darganfod ffyrdd i wneud cymunedau y… deimlo'n fwy o ran o'r ddinas a rhoi iddy… ymdeimlad o hunaniaeth, er enghraifft… Hirael gyda'r glannau a gweithgareddau… newydd yno, a chreu cysylltiadau newy… i gerddwyr a beicwyr i Faesgeirchen gyd… arwyddion sy'n amlygu golygfannau an…
* Bydd cyfleoedd o gwmpas y Ganolfan Iechyd a'r Ganolfan i'r Digartref newydd… yn helpu i ddarparu cefnogaeth i bobl.





Diagram Teg a Chyfiawn

## Dinas o Un Byd

- Dathlu Bangor fel y ddinas fwyaf Cymraeg a dod o hyd i ffyrdd i allforio'r diwylliant Cymreig.
- Annog rhwydweithiau rhyngwladol i allforio athrylith o Fangor drwy gyfnewidfeydd gyda'r brifysgol a'r ysbyty a myfyrwyr tramor yn dychwelyd i'w gwledydd cartref;
- Parhau i ddatblygu cysylltiadau cryf y ddinas gyda Chaerdydd ac Ewrop;
- Agor rhagor o lefydd bwyta sy'n cynnig bwyd o bedwar ban byd;
- Datblygu'r rhaglen ddiwylliannol drwy Ganolfan Pontio a Storiel a lleoliadau celfyddydol eraill i wella'r ddealltwriaeth o'r celfyddydau a diwylliant;
- Hyrwyddo gweithgareddau yn y ddinas i ymgynnull amrywiaeth gwych o bobl sy'n byw yno o bedwar ban byd sydd wedi dewis Bangor fel eu dinas;





Diagram Dinas o Un Byd




**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Crynswth dangosol ar gyfer safleoedd datblygu
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Coeden Arfaethedig
- Coeden Gyfredol
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Arwyddion deallus neu dotemau pwrpasol
- Calon y ddinas
- Lleoliadau datblygu posib
- Lleoliad dangosol nodweddion chwarae'r gyrchfan
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr
- Gwella Ffyrdd Cerbydol

**Prif Gynllun Dangosol**

0 200m

# 4.0 Prif Gynllun Bangor

# 4.1. Y Cysyniad

Mae Cynllun y Cysyniad ar y dudalen gyferbyn yn dangos sut bydd y mynedfeydd a chysylltiadau rhwng tir cyfredol y cyhoedd a'r amgylchedd adeiledig yn y ddinas yn cael eu gwella a'u datblygu. Mae'n ymgorffori pum blaenoriaeth y Bartneriaeth Strategol: adfywio eiddo ar y Stryd Fawr, datblygu Canolfan Iechyd, sefydlu canolfan i'r digartref, gwella'r stoc tai, marchnata a hyrwyddo'r ddinas.

Mae'r cysyniad yn cyflwyno strategaeth hirdymor bwrpasol ac arloesol i ymyrryd yn ofodol yng nghanol y ddinas drwy greu tri lle nodedig ar hyd y dyffryn: Ardal yr Orsaf, Calon y Ddinas a'r Glannau. Mae bob lle yn ceisio gwneud rhywbeth gwahanol ond, yn hanfodol, maent wedi'u hintegreiddio'n llawn gyda'r rhai eraill a'r cymunedau preswyl ac economaidd. Er mwyn gwneud canol y ddinas yn fwy hygyrch i bawb, rhoddir ystyriaeth yn gyntaf i wella cysylltiadau gyda'r ddinas ehangach.

## Ardal yr Orsaf

Byddai creu sgwâr newydd y tu allan i'r orsaf yn croesawu pobl i'r ddinas. Atgyfnerthu'r ardal o gwmpas yr hyn a allwn fod yn ei galw'n Maes yr Orsaf gyda datblygiad defnydd cymysg, wedi'i arwain gan dai neu gyflogaeth yn bennaf.

## Calon y Ddinas

Mae Calon y Ddinas newydd yn cael ei chreu o gwmpas y gadeirlan, y brifysgol a thŵr y cloc. Er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, bydd swyddogaeth gyfredol Ffordd Deiniol a dyluniad ei thirlun fel ffordd gyswllt yn cael ei darfu er mwyn cyflawni llif hawdd i gerddwyr a beicwyr rhwng yr asedau allweddol. Bydd hyn yn darparu cyfleoedd i wella hamdden, diwylliant a digwyddiadau yma. Mae Calon y Ddinas yn gwneud gwell defnydd o'r cysylltiadau gwyrdd dramatig ar y naill ochr i'r dyffryn gyda'r golygfeydd syfrdanol y mae'r llefydd hyn yn ei ddarparu.

## Y Glannau

Mae'r glannau yn rhoi'r cyfle i wneud llawer mwy gyda pherthynas Bangor â'r Fenai, ei borthladd a'r glannau. Mae'r glannau wedi'u dylunio i fod yn brofiad cyfan o un pen i'r llall.





Diagram o'r cysyniad

# 4.2. Y Cynllun Fframwaith

Mae'r Cynllun Fframwaith ar y dudalen gyferbyn yn nodi lleoliad y prosiectau arfaethedig a ddetholwyd gan y Bartneriaeth Strategol ar sail y materion a godwyd yn ystod yr Wythnos Fawr. Mae'r 15 prosiect yn cynnwys cymysgedd o brosiectau symud a thir y cyhoedd, oll gyda'r bwriad o wneud Bangor yn lle gwell i fyw ynddo. Mae'r adran hon yn egluro'r prosiectau mewn mwy o fanylder ac yn nodi'r camau nesaf sydd eu hangen er mwyn dod â'r rhain yn eu blaen.

Byddai gwelliannau i Ffordd Deiniol yn ffurfio un o'r prif brosiectau fel asgwrn cefn i Fangor, gyda phrosiectau a safleoedd allweddol eraill yn cysylltu ynghyd.

Mae'r Sgwâr Coffa yn brosiect allweddol arall a fyddai'n ffurfio calon y ddinas ac a fyddai'n cael ei amgylchynu gan gyfleoedd a chysylltiadau eraill.

Mae prosiectau eraill yn cynnwys cysylltiadau i gefn gwlad a'r glannau, gwelliannau i dir y cyhoedd o gwmpas yr orsaf, glannau a Phier y Garth, a'r isadeiledd beicio newydd i ddarparu dewis amgen dichonadwy i deithio gyda char.

Dangosir rhestr lawn y prosiectau ar y dde, ac mae'r adran hon yn cloi gyda dau brosiect dinas-gyfan pellach: Bangor Cysylltiedig ac Ap Bangor.




**Prosiectau Tir y Cyhoedd**

- A Ardal yr Orsaf a Phont Feicio
- C Gofod Ffocws y Brifysgol
- D Gofod Ffocws Plas Cariadon
- F Sgwâr Brambell
- G Gerddi'r Coleg
- H Cysylltiadau tŵr y cloc
- I Sgwâr Coffa
- J Cadeirlan Bangor
- N Pier y Garth
- O Glannau Bae Hirael

**Prosiectau Symudiadau (Beicio a Cherddwyr)**

- B Ffordd Deiniol
- K Llwybr Beicio ar y Stryd Fawr
- L Llwybr Allweddol i Gerddwyr
- M Mynediad i Gerddwyr at y Glannau

**Prosiect Symudiadau (Cerbydol)**

- E Ffordd Farrar

**Safleoedd Datblygu Posib**

**Cyswllt Gwyrdd y Brifysgol**

**Y Cynllun Fframwaith**

0 200m

# 4.3.A. Ardal yr Orsaf a Phont Feicio

**Math y Prosiect**
Symudiad/Lle

**Disgrifiad o'r Safle**
Cwrt Blaen Gorsaf Drenau Bangor, ger ymylon a thir gwyrdd i'r de o'r rheilffordd.

**Perchnogaeth Tir**
National Rail, y Post Brenhinol ac o bosib perchnogion tir preifat eraill.

**Y Cysyniad**
Mae sgôp i wella'r cwrt blaen chwithig gorsaf drenau Bangor tua'r gogledd drwy ei newid i fod yn ardal flaenoriaeth i gerddwyr. Nid yn unig bod hyn yn darparu sgôp am brofiad llawer mwy pleserus wrth gyrraedd yno, ond mae hefyd yn lleihau symudiad y traffig i mewn ac allan o'r orsaf, sy'n galluogi gallu symleiddio'r gyffordd a'r groesfan i gerddwyr ger Ffordd Caergybi / Ffordd Deiniol.
Byddai'r driniaeth fanwl yn dibynnu ar p'un a fydd cylchrediad y traffig yn newid (gweler prosiect E. Ffordd Farrar) ond byddai o leiaf yn cynnwys rhaglen o dacluso a newidiadau i driniaethau'r arwyneb gan ddefnyddio deunyddiau o ansawdd gwell, a chyflwyno coed stryd, yn ogystal â chyflwyno cyfleusterau gwell i gerddwyr a beicwyr. Byddai hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pont i feicwyr dros y rheilffordd.
Trawsffurfiad positif tebyg - adleoli cerbydau o flaen gorsaf - gellir gweld hyn yng Ngorsaf Ganolog Newcastle.

**Camau Nesaf**
Llunio cynlluniau manwl ar gyfer gwelliannau i dir y cyhoedd yng nghwrt blaen yr orsaf, dylunio cysyniadol a hyfywdra pont beicio newydd, archwilio'r potensial ar gyfer newidiadau cyfanwerthu o gwmpas ardal yr orsaf, gan gynnwys y potensial ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg a newidiadau i gylchrediad y traffig a mesurau lliniaru llifogydd.
















## Ardal yr Orsaf a Phont Feicio

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Crynswth dangosol ar gyfer safleoedd datblygu
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Lleoliad dangosol nodweddion chwarae'r gyrchfan
- Ardal Parcio Ceir
- Gwefru Cerbydau Trydanol
- Mynediad i Gerbydau
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Key Pedestrian Movement/ Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# B. Ffordd Deiniol

**Math y Prosiect**

Symudiad

**Disgrifiad o'r Safle**

Ar hyd Ffordd Deiniol o'r Orsaf Drenau i ddechrau llwybr Beicio'r Glannau (Parc Bangor).

**Perchnogaeth tir**

Cyngor Gwynedd

**Y Cysyniad**

Cynigir triniaeth gynhwysfawr o'r llwybr, sef o ardal well ger yr orsaf reilffordd hyd at fynediad i'r orsaf drenau i fyny Ffordd Garth, sy'n marcio terfyn gogleddol ardal y brifysgol/dinesig canol y ddinas.

Yr egwyddor ddylunio barhaus yw darparu ffordd gerbydau 6.5 metr o led: mae hyn yn lleihad o led presennol y ffordd, ond yn dal i fod yn ddigonol ar gyfer traffig dwyffordd ar stryd brysur. Bydd y gofod a adleolir yn cael ei ddefnyddio i greu gofod diogel ar gyfer beicio, lledu palmentydd, a chyfleoedd i gael mwy o ardaloedd gwyrdd.


Ar y cyfan, bydd y ddarpariaeth beicio yn golygu llwybr grisiog ddwyffordd ar un ochr y stryd, wedi'i wahanu oddi wrth y ffordd gerbydau a llwybr troed gyda chyrbau unionsyth. Mae'r math hwn o lwybr beicio yn gyffredin yn Nenmarc, ac mae'n cael ei argymell gan Ganllawiau Dylunio Teithio Llesol Cymru.

Rhoddir ystyriaeth i'r angen i gyflwyno technoleg glyfar ar hyd y llwybr, megis monitro traffig byw y gellir ei ddefnyddio i reoli systemau llwybr maes parcio mewn amser real, neu gyfyngiadau cyflymdra newidiol ar adegau pan fo nifer uchel o gerddwyr a beicwyr. Bydd cymorth cyflymdra deallus yn orfodol ar geir newydd erbyn 2022.


Cynigir ymyraethau mwy arwyddocaol ar dri phwynt ffocws ar hyd y llwybr, sy'n cael eu trafod yn yr adrannau isod. Y rhain yw Plas y Brifysgol, Lôn Cariadon a Sgwâr Coffa.

**Camau Nesaf**

Cynnal arolygon manwl a chynnal astudiaethau hyfywdra cyn llunio cynlluniau manwl ar gyfer gwelliannau i dir y cyhoedd a gosodiad ffordd newydd.




Adran AA




Adran BB






## Ffordd Deiniol

**Etifeddiaeth**

- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr

# C. Gofod Ffocws y Brifysgol

**Math y Prosiect**
Symudiad/Lle

**Disgrifiad o'r Safle**
Gofod ffocws ger cylchfan Ffordd Deiniol / Ffordd Sackville (Asda).

**Perchnogaeth Tir**
Cyngor Gwynedd yn bennaf, gyda rhai ardaloedd dan berchnogaeth y Brifysgol/preifat.

**Y Cysyniad**

Mae cyfle i wella hygyrchedd i'r mannau gwyrdd oddi amgylch, gan gynnwys y sgwâr y tu allan i gampws gwyddoniaeth a thechnoleg y brifysgol. Byddai ymyraethau plannu yn defnyddio rhywogaethau blodau gwyllt a gerddi dŵr glaw effeithiol sydd heb lawer o waith cynnal a chadw, a byddant yn cael eu gosod yn erbyn gwrychoedd a llwyni bytholwyrdd er mwyn darparu strwythur ar hyd y flwyddyn.


Mae ardaloedd plannu yn meddalu gosodiad ffordd llawer gwell ac yn plethu ynghyd y sgwâr cyfredol sydd ger y brifysgol a'r mynediad i'r stryd fawr a thu hwnt.

Er y byddai'n ddymunol tynnu'r gylchfan a'i amnewid am gyffyrdd blaenoriaeth fwy traddodiadol, dylid cadw'r amcan hwn fel dyhead tymor-hir.

Byddai'r prosiect hwn yn golygu cadw diamedr cyfredol yr ardal gylchredol, ond newid geometreg y ddynesfa i leihau cyflymdra cyrraedd a gadael traffig, a rhoi croesfannau sebra o gwmpas pob braich er mwyn darparu mwy o flaenoriaeth i gerddwyr. Byddai'r croesfannau sebra yn cynnwys croesfannau paralel i feicwyr, gan ganiatáu mynediad o gwmpas y gylchfan.

Yn dibynnu ar y gyllideb, byddai'n ddymunol newid triniaeth faterol y ffordd gerbydau gylchredol fel ei bod yn edrych yn debyg yn weledol i'r marciau cylchol yn Poynton, Sir Gaer.

**Camau Nesaf**
Cynnal arolygon manwl a thrafod cynlluniau gyda pherchnogion tir cyfagos cyn llunio cynlluniau manwl.







Poynton, Sir Gaer © Chris Morgan






## Gofod Ffocws y Brifysgol

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# D. Gofod Ffocws

# Plas Cariadon

### Math y Prosiect

Symudiad/Lle

### Disgrifiad o'r Safle

Gofod ffocws ger cylchfan Ffordd Garth a Ffordd Deiniol.

### Perchnogaeth tir

Cyngor Gwynedd

### Y Cysyniad


Mae cyffordd Ffordd Deiniol, Ffordd Garth, Lôn Cariadon a Stryd y Ffynnon yn fynedfa bwysig o'r gogledd i gampws y Brifysgol ac i Ganol y Ddinas. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae ganddo osodiad cymhleth i gerbydau a cherddwyr. Rydym yn cynnig symleiddio'r gofod hwn drwy gyflwyno gweithrediad unffordd i Lôn Cariadon (unffordd i fyny'r allt) i gael gwared ar un o'r symudiadau anghyson ger y gyffordd hon.

Bydd y groesfan dan signalau cyfredol ger Aldi yn cael ei symud yn agosach at Stryd y Ffynnon, i'r gorllewin o fynedfa gul Lôn Cariadon. Dyma'r groesfan lle mae'r llwybr beicio yn newid o ben gogleddol Ffordd Deiniol i ben deheuol Ffordd Garth. O ganlyniad i newidiadau i led y tir a chyffyrdd, mae mwy o le ar gael ar gyfer tir y cyhoedd, cerddwyr a beicwyr.

Bwriedir i'r gofod ffocws farcio croestoriad yng nghymeriad cyfoethog Bangor a dathlu'r llystyfiant a'r topograffi cyfredol tuag at Adeilad y Celfyddydau. Byddai ymyraethau plannu yn defnyddio rhywogaethau blodau gwyllt a gerddi dŵr glaw effeithiol sydd heb lawer o waith cynnal a chadw, a byddant yn cael eu gosod yn erbyn gwrychoedd a llwyni bytholwyrdd er mwyn darparu strwythur ar hyd y flwyddyn. Bydd coeden arwyddocaol (20+m uchder aeddfed) yn gwasanaethu fel arwydd deallus a chreu lle.

### Camau Nesaf

Cynnal arolygon manwl a thrafod cynlluniau gyda pherchnogion tir cyfagos cyn llunio cynlluniau manwl.





© Mikkel Østergaard










**Gofod Ffocws Plas Cariadon**

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# E. Ffordd Farrar

### Math y Prosiect
Symudiad

### Disgrifiad o'r Safle
Ffordd Farrar a'r cyffyrdd cyfagos yn ogystal â rhannau o'r Stryd Fawr, Ffordd Deiniol a Ffordd Caergybi.

### Perchnogaeth tir
Cyngor Gwynedd


### Y Cysyniad
Mae'r system unffordd ar Ffordd Farrar, y Stryd Fawr, Ffordd yr Orsaf ac adran ddeheuol Ffordd Deiniol wedi cael ei dylunio i wneud y gorau o lif y traffig, ond mae lleihad yn y llif ers y 2000au cynnar yn golygu efallai nad yw hyn bellach yn angenrheidiol.

Gall systemau unffordd fod yn broblemus gan eu bod yn gallu ymestyn llwybrau i feicwyr, ac mae'r symudiadau gwehyddu sydd eu hangen i deithio ar eu hyd hefyd yn broblemus.

Gellir ystyried nifer o ddewisiadau posib - gyda neu heb y rhagdybiaeth hon - ac ystyrir bod dewis y gellir ei gyflawni fel rhan o broses raddol yn bosib, h.y. ddim yn dibynnu ar newidiadau cyfanwerth i'r system gylchu gyfan. Mae hyn yn golygu bod Ffordd Deiniol yn ddwyffordd ar ei hyd, gydag adrannau unffordd cyfredol Ffordd Caergybi a Ffordd Farrar yn parhau. Gellir trosi'r rhain i fod yn ffyrdd dwyffordd yn hwyrach ymlaen unwaith y bydd astudiaeth fwy cynhwysfawr wedi cael ei chwblhau.

Gallai'r dyluniad gynnwys llwybr dwyffordd ar hyd pen gogleddol Ffordd Deiniol, sy'n croesi braich fach Ffordd Farrar gyda chroesfan sebra paralel i feicwyr. Byddai angen newid geometreg cyffordd Ffordd Farrar er mwyn gwneud lle ar gyfer ynys 'deigryn', sy'n galluogi i draffig tua'r gorllewin barhau ar hyd Ffordd Deiniol, yn ogystal â throi i'r chwith i mewn i Ffordd Farrar.

### Camau Nesaf
Ymgymryd â modelu traffig a phwyso a mesur gwahanol ddewisiadau i ad-drefnu symudiad y traffig cyn llunio cynlluniau gwella ffyrdd manwl.










**Ffordd Farrar**

**Etifeddiaeth**

- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Arwyddion deallus neu dotemau pwrpasol
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr

# F. Sgwâr Brambell

### Math y Prosiect
Lle

### Disgrifiad o'r Safle
Sgwâr Brambell oddi ar Ffordd Deiniol, gyferbyn â mynediad Asda.

### Perchnogaeth tir
Prifysgol Bangor

### Y Cysyniad
Deallir bod y Brifysgol yn ceisio ymgymryd â gwaith gwella i'r sgwâr er mwyn codi'r gwerth mwynderola gwella cysylltiadau ar hyd Ffordd Deiniol a thrwy'r campws. Deallir y bydd cynigion yn cynnwys plannu a seddi newydd ynghyd â gwell llwybrau.

### Camau Nesaf
Ymgysylltu gyda'r Brifysgol i ddeall eu hamserlenni a chyfleoedd i gysylltu hyn gyda phrosiectau eraill a nodir yn y ddogfen hon.











## Sgwâr Brambell

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Celf/Cerfluniaeth
- Lleoliadau datblygu posib
- Cysylltiadau Gwyrdd Posib at y Stryd Fawr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# G. Gerddi'r Coleg

### Math y Prosiect
Lle

### Disgrifiad o'r Safle
Ardal gyfredol Gerddi'r Coleg yn cynnwys yr ardal gyhoeddus o gwmpas Canolfan Pontio.

### Perchnogaeth tir
Prifysgol Bangor

### Y Cysyniad
Y cynnig yw caniatáu ar gyfer defnydd y cyhoedd a gwella Gerddi cyfredol y Coleg. Bydd cysylltiadau ffyrdd troed newydd yn cael eu dylunio er mwyn creu cysylltiadau uniongyrchol gydag adeiladau'r brifysgol, Canolfan Pontio, y ddau ofod ffocws ar Ffordd Deiniol a dod yn rhan o lwybrau pellter hirach i'r gogledd tuag at y Gwersyll Rhufeinig a'r Pier.

Ar hyd llwybrau'r ffyrdd troed hyn, bydd mannau codi a gollwng yn cael eu gosod mewn mannau newydd gwastad wedi'u tirlunio, lle gellir mwynhau golygfeydd o'r ddinas.

Bydd yr ardd goed yn cael ei phlannu, gan ymestyn y plannu coed cyfredol tuag at Ganolfan Pontio.

### Camau Nesaf
Trafod y posibilrwydd o ddefnydd y cyhoedd gyda'r Brifysgol, yn cynnwys unrhyw bryderon ac ystyriaethau rheoli y gellir fod angen eu datrys er mwyn caniatáu ar gyfer hyn.

Cynnal arolwg coed a thopograffi manwl, a pharatoi cynnig ar gyfer gwelliannau i ganiatáu defnydd mwy dwys o'r gofod allweddol hwn.












## Gerddi'r Coleg

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Celf/Cerfluniaeth
- Lleoliad dangosol nodweddion chwarae'r gyrchfan
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# H. Cysylltiadau Tŵr y Cloc

**Math y Prosiect**
Lle / Symudiad

**Disgrifiad o'r Safle**
Croesfan Tanyfynwent a Ffordd Garth, yn ogystal â chysylltiadau i Dŵr y Cloc a Ffordd Garth o gwmpas yr Ysgol Annibynnol.

**Perchnogaeth tir**
Cyngor Gwynedd

**Y Cysyniad**
Dros y tymor hwy, gellir gwella'r amgylchedd o gwmpas y gerddi ger Storiel ymhellach drwy adleoli'r orsaf fysiau. Gellir trawsffurfio maes parcio aml-lawr Glanrafon ac arwyneb Allt y Castell i mewn i "Stryd y Rhodfa Bysiau" gyda thu blaen gweithgar ac amgylchedd wedi'i adeiladu'n bwrpasol i gefnogi cyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus gyda llai o ymyrraeth ar fan gwyrdd mor heddychlon a sensitif.
Efallai yn fwy arwyddocaol, mae cyfleoedd i wella'r modd y mae cerddwyr a beicwyr yn teithio drwy'r ardal hon er mwyn cael mynediad i'r Stryd Fawr a'r canolfannau siopa. Dylai hyn gynnwys mesurau i wneud y cysylltiadau yn hwylus ond hefyd yn ddiogel i'w defnyddio.

**Camau Nesaf**
Trafod cynlluniau gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus ac adnabod cyfleoedd datblygu posib. Creu arolwg coed ac adnabod cyfleoedd i wella a chreu cysylltiadau newydd i gerddwyr a beicwyr.
















**Cysylltiadau Tŵr y Cloc**

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# I. Sgwâr Coffa

**Math y Prosiect**
Lle

**Disgrifiad o'r Safle**
Ardal gyfredol Sgwâr Coffa yn cynnwys y lawnt fowlio a'r ardal chwarae.

**Perchnogaeth tir**
Cyngor Gwynedd

**Y Cysyniad**
Dyma'r cysyniad ar gyfer Sgwâr Coffa: sgwâr ffurfiol wedi'i osod ymysg tirlun parc meddal. O fewn y cynnig, rhagwelir y bydd y rhan 'sgwâr' canolog wedi'i ffurfioli yn arwyneb gwastad wedi'i rannu dros ddwy brif lefel gyda stepiau eistedd. Mae'r tirlunio meddal yn cynnwys plannu arfaethedig yn ogystal â'r plannu cyfredol ar hyd y llwybr troed.

Mae Gerddi'r Gadeirlan a Gerddi'r Beibl, sydd â chyfoeth o blanhigion, yn cyfrannu at y gosodiad naturiol. Byddai croesfannau arwyneb a rennir wrth Ffordd Deiniol yn integreiddio Sgwâr coffa i'w gyd-destun ehangach a ddethlir o fewn y Brifysgol, Bwa Coffa, y Stryd Fawr a'r nodweddion tirlunio ehangach. Cynigir bod hyn yn cael ei gwblhau mewn dau gam.

**Camau Nesaf**
Adnabod cyfleoedd ariannu addas, cynnal arolygon manwl a llunio cynigion tir y cyhoedd manwl.














## Sgwâr Coffa

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Calon y ddinas
- Lleoliadau datblygu posib
- Lleoliad dangosol nodweddion chwarae'r gyrchfan
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# J. Cadeirlan Bangor

**Math y Prosiect**

Lle

**Disgrifiad o'r Safle**

Tir Cadeirlan Bangor a'i gysylltiadau gyda'r ardaloedd o'i chwmpas.

**Perchnogaeth tir**

Cadeirlan Bangor

**Y Cysyniad**

Mae'r Gadeirlan yn edrych ar ffyrdd i sicrhau ei uchelgeisiau hirdymor fel canolfan gymunedol sy'n cefnogi amrywiaeth o weithgareddau, grwpiau a gwerthoedd cymunedol. Y bwriad yw edrych ar atgyfnerthu nifer o weithgareddau y mae'r Gadeirlan yn eu cefnogi, megis perfformiadau cerddorol am ddim, arddangosiadau, digwyddiadau cymdeithasol ac arlwyo, a darparu cyfleusterau priodol er mwyn caniatáu i'r safle barhau i fod yn rhan fywiog ac allblyg o ganol Bangor.

**Camau Nesaf**

Archwilio potensial cyfleusterau cyfredol o fewn y tir a llunio cynlluniau dichonolrwydd er mwyn sefydlu cyllideb i gyflwyno'r trawsffurfiad a ragwelir.












**Cadeirlan Bangor**

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr



Braslun o'r Sgwâr Coffa newydd



**Braslun o Ffordd Deiniol newydd o Sgwâr Brambell i'r Orsaf Drenau**

# K. Llwybr Beicio ar y Stryd Fawr

### Math y Prosiect
Symudiad

### Disgrifiad o'r Safle
Hyd llawn y Stryd Fawr.

### Land Ownership
Cyngor Gwynedd

### Y Cysyniad
Bydd y Stryd Fawr yn dod yn brif lwybr beicio drwy'r ddinas ac i Faesgeirchen a thu hwnt. Mae angen tri dull a gweithred wahanol i alluogi hyn:

1. Byddai rhan y Stryd Fawr sy'n bennaf yn breswyl yn gweithredu fel 'Ffordd ddistaw' lle gall beicwyr rannu'r briffordd gyda cherbydau, ond byddai angen lleihau nifer y traffig a'i ailgyfeirio yn yr ardal hon cyn caniatáu ar gyfer hyn. Dylai beicwyr hefyd fod â chaniatâd i deithio yn y ddau gyfeiriad yma.
2. Ar hyn o bryd, mae'r stryd fawr yn destun Gorchymyn Pedestreiddio sy'n gwahardd beicwyr. Byddai angen eithrio beicwyr o'r Gorchmynion Pedestreiddio er mwyn caniatáu i bobl deithio ar feic drwy'r rhan hon o'r Stryd Fawr. Efallai y bydd rhywfaint o bryderon diogelwch dros ganiatáu i feicwyr fod yn adrannau'r Stryd Fawr i gerddwyr, ond mae dinasoedd megis Caerlŷr wedi dangos bod gwir lefelau'r gwrthdaro rhwng cerddwyr a beicwyr yn isel iawn.  Mae beicio mewn mannau i gerddwyr yn cael ei gefnogi yng Nghanllawiau Dylunio Teithio Llesol.
3. Dylai ardal ddeheuol y Stryd Fawr ganiatáu i feicwyr deithio yn y cyfeiriad arall i draffig cerbydol. Bydd hyn yn gofyn am astudiaeth ofalus, ond mae profiad wedi dangos y gall beicio i'r gwrthlif weithio'n ddiogel, hyd yn oed pan fo gofod yn gyfyngedig.

### Camau Nesaf
Cynnal asesiad o'r mesurau arfaethedig ac adnabod cyfleoedd cyllideb addas i ymgymryd â'r gwaith, gan ei fod yn annhebygol o gael cost sylweddol. Defnyddio cyfle i adolygu cylchrediad traffig ym mhen gogleddol y stryd ac ardal Hirael yn y tymor hwy.
















## Llwybr Beicio ar y Stryd Fawr

**Etifeddiaeth**

- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Arwyddion deallus neu dotemau pwrpasol
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr

# L. Llwybr Allweddol i Gerddwyr

**Math y Prosiect**

Symudiad

**Disgrifiad o'r Safle**

Cyfuniad o ffyrdd troed cyfredol ac arfaethedig yn ymestyn o'r Gwersyll Rhufeinig i Faesgeirchen

**Perchnogaeth tir**

Cyngor Gwynedd yn bennaf, gyda rhai ardaloedd dan berchnogaeth y Brifysgol

**Y Cysyniad**

Cynigir creu llwybr hamdden pellter hir a fyddai'n cysylltu canol Bangor a'i holl gyrchfannau allweddol gyda gosodiad y tirlun a chofebion hanesyddol. Byddai hyn yn caniatáu i ymwelwyr a'r preswylwyr lleol werthfawrogi gosodiad y ddinas hanesyddol a chael mynediad at y gofodau hamdden naturiol yn rhwyddach. Byddai'r llwybr hefyd yn cysylltu i'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus cyfredol a'r llwybrau pellter hir. Mae mwyafrif y cysylltiadau hyn eisoes yn bodoli ac angen gwelliannau, ond mewn rhai amgylchiadau efallai bod llwybrau newydd a hygyrch yn briodol, gyda chefnogaeth cyfleusterau eraill megis meinciau a dodrefn eraill ar gyfer y tu allan.

**Camau Nesaf**

Arolygu cyflwr y llwybrau cyfredol ac adnabod cyfleoedd am gysylltiadau newydd. Sefydlu deialog gyda'r Brifysgol lle ceisir cysylltiadau drwy eu tir.



















## Llwybr Allweddol i Gerddwyr
**Etifeddiaeth**

- Cyrchfan Allweddol
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Arwyddion deallus neu dotemau pwrpasol
- Golygfan Panoramig
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyfredol

# M. Mynediad i Gerddwyr at y Glannau

### Math y Prosiect
Symudiad

### Disgrifiad o'r Safle
Y llwybr cyfredol wrth gefn y Clwb Bowlio a'r pwll nofio.

### Perchnogaeth tir
Tir Cyngor Gwynedd yn bennaf

### Y Cysyniad
Deallir y bydd gwaith yn cael ei wneud i greu amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i integreiddio llwybr gweithredol wedi'i ddylunio'n hyfryd ar hyd y glannau, sydd hefyd yn gweithredu fel amddiffynfa effeithiol rhag llifogydd.  Mae llwybr cyfredol Lôn Adda yn darparu llwybr cerdded a beicio braf drwy Barc Bangor ac i'r glannau. Gellir gwella parhad y llwybr hwn drwy ddarparu croesfannau blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr pan fo'n rhyngwynebu â ffyrdd.

* O gwmpas Pen y Pier, bu galwadau lleol i greu rhywfaint o ffyrdd unffordd er mwyn lleihau gwrthdaro pan fo coetsis yn cyrraedd ac yn gadael. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ledu ffyrdd troed (mae rhai ardaloedd lle mae ffyrdd troed naill ai'n absennol neu'n doredig).

* Lle na ellir darparu ffyrdd troed, gellir darparu 'stryd flaenoriaeth i gerddwyr', lle gosodir y stryd mewn deunyddiau a chyda dodrefn stryd sy'n pwysleisio ei ddefnydd fel arwyneb a rennir. Mae enghreifftiau cyfredol o'r driniaeth hon mewn llefydd eraill ym Mangor (e.e. Allt Glanrafon).

### Camau Nesaf
Sefydlu'r cynlluniau hirdymor ar gyfer y prosiect amddiffyn rhag llifogydd, Gorsaf Dân a defnyddiau eraill o gwmpas er mwyn gweld p'un a ellir darparu'r gwelliannau hyn fel rhan o ailddatblygiad ehangach yr ardal.













## Mynediad i Gerddwyr at y Glannau

**Etifeddiaeth**

- Crynswth dangosol ar gyfer safleoedd datblygu
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Arwyddion deallus neu dotemau pwrpasol
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyfredol




**Braslun o brosiect arfaethedig y Glannau**



**Braslun o brosiect Sgwâr Coffa a Pharc y Brifysgol**

# N. Pier y Garth

### Math y Prosiect
Lle

### Disgrifiad o'r Safle
Pier y Garth a'r ardal o'i amgylch.

### Land Ownership
Tir Cyngor Gwynedd yn bennaf, gyda rhywfaint o dir preifat o bosib.

### Y Cysyniad
Cynigir nifer o welliannau i osodiad a defnydd o'r pier, yn cynnwys:

1. Gwella'r mynediad gyda thir y cyhoedd o ansawdd uwch a gwelliannau i dirlun y gofod agored cyfredol.
2. Symud y maes parcio i ochr y ffordd er mwyn rhyddhau gofod y cyhoedd sy'n edrych dros y glannau er mwyn caniatáu ar gyfer gofod gorlifo gan fusnesau cyfredol.
3. Ychwanegu pontŵn ar y pier er mwyn darparu mynediad i angorfeydd fferis a llongau mordeithio.
4. Gwella cysylltedd gyda bysiau er mwyn caniatáu rhyng-weithrediad gyda'r gwasanaeth fferi i/o Gastell Biwmares.
5. Creu cysylltiad ar gyfer gwell llwybr i gerddwyr (gweler prosiect: L. Mynediad i Gerddwyr at y Glannau).

### Camau Nesaf
Ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth fferi ac archwilio cyfleoedd am wasanaethau o'r pontynau. Cynnal arolygon manwl a chreu cynllunio ar gyfer gwelliannau i dir y cyhoedd ac adnabod cyfleoedd ariannu.












## Pier y Garth

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Crynswth dangosol ar gyfer safleoedd datblygu
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Ardal Parcio Ceir
- Mynediad i Gerbydau
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# O. Glannau Bae Hirael

**Math y Prosiect**
Lle

**Disgrifiad o'r Safle**
Pier y Garth a'r ardal o'i amgylch.

**Perchnogaeth tir**
Tir Cyngor Gwynedd yn bennaf, gyda rhywfaint o dir preifat o bosib.

**Y Cysyniad**
Bydd y prosiect amddiffyn rhag llifogydd newydd yn darparu cyfleoedd i gael gwelliannau i dir y cyhoedd ar hyd y glannau:

* Byddai'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael eu hadeiladu fel y decin, a bydd y seddi a'r llwybr i gerddwyr a beicwyr i gyd yn cael eu hymgorffori i mewn i'r strwythur. Mae LDA wedi dylunio nifer o enghreifftiau llwyddiannus o hyn, yn cynnwys yn Littlehampton a Portsea.
* Bydd llwybr beicio i gerddwyr yn rhedeg ar hyd y glannau ac yn cysylltu i lwybrau Sgwâr Coffa, Hirael a'r Pier (gweler prosiect: L. Mynediad i Gerddwyr at y Glannau).
* Ger y cae pêl-droed a gedwir, bydd parc sglefrio mwy yn cael ei gynnwys sy'n cynnig tirwedd ar ffurf sgwâr.
* Gellir lleoli caban dros dro, yn gwerthu bwyd môr lleol, mewn parc wedi'i dirlunio gyda seddi, ardal chwarae a choed wedi'u plannu.
* Bydd Ffordd y Traeth yn cael triniaeth arwyneb ffordd newydd i greu amgylchedd sy'n gyfeillgar i gerddwyr ynghyd â llwybr ar wahân i feicwyr.
* Bydd maes parcio yn cael ei gynnwys ar ben y Stryd Fawr.
* Y tu hwnt i'r maes parcio, bydd strwythur dros dro, er enghraifft wedi'i ddylunio o gynwysyddion cludiant, yn profi defnyddwyr eraill, megis gofod gweithdy.

**Camau Nesaf**
Datblygu cynigion tir y cyhoedd ymhellach, ochr yn ochr â chynnydd y prosiect amddiffyn rhag llifogydd.


















## Glannau Bae Hirael

**Etifeddiaeth**

- Ardal o welliannau cyffredinol i dir y cyhoedd a thiroedd newydd i'r cyhoedd
- Ardal o addasiadau sylweddol i dir y cyhoedd / lleoliadau allweddol tir sydd wedi'i ddylunio i'r cyhoedd
- Crynswth dangosol ar gyfer safleoedd datblygu
- Blaenau Pwysig a Chyfleoedd i gael blaenau gwell/gweithredol
- Mannau gwyrdd a phlannu arfaethedig (yn ymgorffori gerddi dŵr glaw lle bo hynny'n berthnasol/briodol)
- Isadeiledd Beicio (parcio/hurio)
- Lleoliadau datblygu posib
- Lleoliad dangosol nodweddion chwarae'r gyrchfan
- Ardal Parcio Ceir
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr a Beicwyr
- Symudiad/Cysylltiadau Allweddol i Gerddwyr

# 4.4. Bangor Cysylltiedig

**Math y Prosiect**
Symudiad

**Disgrifiad o'r Safle**
Y ddinas ehangach.

**Perchnogaeth tir**
Amrywiol, ond Cyngor Gwynedd yn bennaf.

**Y Cysyniad**
Er mai'r flaenoriaeth yw canol y ddinas, y dasg hirdymor yw gwella'r profiad o symud drwy'r ddinas ehangach. Byddai gwell rhwydwaith i gerddwyr a beicwyr, codi lefelau byw yng nghanol y ddinas a chysylltu canol y ddinas gyda'r ardaloedd tai ar y cyrion oll yn helpu Bangor i gyflawni ei botensial i fod yn gyrchfan allweddol yng Ngogledd Cymru. Nodir rhagor o wybodaeth am y strategaethau arfaethedig isod.

**Camau Nesaf**
Cynnal astudiaeth bellach ar y cysylltiadau a gynigir yn y cynllun gyferbyn i gadarnhau mai'r rhain fyddai'r cysylltiadau mwyaf hwylus. Addasu'r rhain i ffurfio rhan o'r polisi cynllunio, i sicrhau bod y dyheadau hyn yn glir wrth wneud penderfyniadau strategol yn y dyfodol.

## Strategaeth Feicio ar gyfer dinas gyfan Bangor

Mae'r cynllun gyferbyn yn cynnig rhwydwaith feicio i'r dyfodol ar gyfer canol y ddinas. Mae hwn yn adeiladu ar y llwybrau cyfredol, ond gyda gwelliannau helaeth ynghyd â nifer o lwybrau newydd. Y strategaeth gyffredinol yw creu llwybrau parhaus sy'n eglur ac wedi'u cysylltu'n dda ar hyd y coridorau tawelach o'r de i'r gogledd ac o'r gogledd i'r dwyrain. Bydd y rhain yn darparu pedwar llwybr paralel i ogledd-ddwyrain y Rheilffordd - y Stryd Fawr, Ffordd Deiniol, Ffordd y Coleg a Ffordd Siliwen/Ffordd Caergybi.

Cyflawnir cysylltedd ar hyd y rheilffordd gyda chroesfan pont newydd i orllewin yr orsaf. Bydd hyn yn ymyrraeth gostus, ond bydd yn hanfodol i gysylltu prif ardaloedd preswyl y ddinas gyda'r canol drwy lwybr a fydd yn denu pobl newydd i feicio. Bydd hyn yn cael ei gyflawni orau fel rhan o ddatblygiad tir cynhwysfawr i'r de o'r orsaf, a chreu sgwâr cyrraedd gwell yn yr orsaf.
Bydd galluogi beicio dwyffordd ar hyd y Stryd Fawr angen astudiaeth fanwl, ond dengys profiad bod beicio gwrthlif yn gallu gweithio'n ddiogel pan fo lle'n gyfyngedig. O ddewis, bydd y llwybr beicio hwn yn cael ei gyflawni fel rhan o gynllun mwy cynhwysfawr i leihau traffig ar y Stryd Fawr.

I'r gogledd-ddwyrain o Stryd y Deon, mae'r llwybr cyfredol drwy'r mannau gwyrdd yn cysylltu Ffordd Deiniol a'r glannau. Caiff y rhain eu cysylltu gyda nifer o lwybrau croesi sy'n gwasanaethu i ffurfio rhwydwaith wedi'i chysylltu'n dda:

* Ar hyd y glannau, sydd hefyd yn darparu llwybrau i Garth, Maesgeirchen a'r Rhwydwaith Feicio Genedlaethol ar hyd Afon Cegin.
* Ffordd Glynne
* Llwybr oddi ar y ffordd drwy Gerddi'r Coleg gyferbyn â Lôn Cariadon a chysylltu i Ffordd Garth.
* Glanrafon ac Allt Glanrafon drwy groesfan Pontio
* Llwybr Cwfaint
* Ffordd yr Orsaf a Ffordd Caernarfon
* Ffordd Belmont i Ffordd Caergybi

## Strategaeth i Gerddwyr ar gyfer Canol Dinas Bangor

Mae'r cynllun gyferbyn yn cynnig rhwydwaith i gerddwyr yn y dyfodol ar gyfer canol y ddinas. Mae hwn yn adeiladu ar y llwybrau ar hyd strydoedd cyfredol, ynghyd ag ychwanegu nifer o lwybrau newydd ar hyd mannau agored, ac mae'n debygol mai llwybrau a rennir yw rhai llwybrau beicio a gynigir.
Y strategaeth gyffredinol yw creu llwybrau parhaus sy'n eglur ac wedi'u cysylltu'n dda sy'n creu gwe ar hyd canol y ddinas, o'r orsaf i'r glannau ac o'r Pier i Fynydd Bangor.


Fforedd Caergybi
Lôn Cariadon
Ffordd Glynne
Ffordd Garth
Glanrafon
Llwybr Cwfaint
Ffordd Belmont
Ffordd yr Orsaf
Ffordd Caernarfon
Maesgeirchen
Cynllun Gogledd Cymru (Rhwydwaith Feicio Genedlaethol)
Bangor Cysylltiedig
Etifeddiaeth
Llwybr Beicio
Llwybr cerdded
Croesfan allweddol i gerddwyr/beicwyr
Cyrchfan Allweddol

# 4.5. Ap Bangor


**Math y Prosiect**
Digidol

**Disgrifiad o'r Safle**
Y ddinas gyfan

**Perchnogaeth tir**
Amherthnasol

**Y Cysyniad**
Creu ap ar gyfer pobl Bangor sy'n cyfuno cyfleoedd am waith, digwyddiadau cymdeithasol, cyrchfannau a theithio fel bod yr holl wybodaeth ar gael mewn un lle. Byddai'r llwyfan hwn yn tynnu ynghyd gyfuniad o newyddion, gwasanaethau a digwyddiadau cymdeithasol a chymunedol, system cynllunio taith integredig neu rannu desg, a chyfleoedd cydweithio ar draws Bangor. Yn yr un modd, bydd yr ap yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n byw, gweithio ac ymweld â Bangor, a bydd yn helpu i gysylltu sectorau celfyddydol, addysgol a chyflogaeth y ddinas, ynghyd â gwelliannau posib i drafnidiaeth gyhoeddus a theithio aml-ddull. Byddai'r ap yn seiliedig ar ddata sydd ar gael ar hyn o bryd gan wahanol ran-ddeiliaid ac a allai fod ar gael drwy welliannau ac integreiddiad datrysiadau clyfar gyda WiFi.

**Camau Nesaf**
Ymgysylltu ag ymgynghorydd sydd â chymwysterau addas i gynnal asesiad cychwynnol y data sydd ar gael. Datblygu strategaeth ar gyfer rheoli'r data ar draws y ddinas a'i amrywiol ran-ddeiliaid. Datblygu dichonolrwydd ar gyfer gwaith datblygu posibl yr ap. Asesu'r data sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn ei hysbysu.



**AVD**
Bangor



Awst 2022

82 Hoffterau
Decker17
Mor falch o gael ein marchnad bwyd stryd **new**ydd ym #Mangor

**karenmac**
Bangor



54 Hoffterau
karenmac
Trip diwrnod i Fiwmares - ond yn gyntaf Pier y Garth # Fictoraidd #reidarfferi

**JoJo**
Bangor



12 Hoffterau
JoJo
Noson odidog yn y dangosiadau ffilm misol ym #Mangor

**michaelraynes**
Bangor



Awst 2022

230 Hoffterau
michaelraynes Trip gwych gyda phlant Ysgol Gynradd Ein Harglwyddes i'r amgueddfa sŵoleg #bangor

**Dean_81**
Bangor



Awst 2022

188 Hoffterau
Dean_81
Bwyd artisan lleol yn @marchnadffermwyrbangor#ffres

**terrytu**
Bangor



Awst 2022

18 Hoffterau
terrytu Chwarae ar ôl ysgol yn yr ardd chwarae wyllt gyda fy ffrindiau a dim ond herc, sgip, naid o adref. #chwaraenaturiol

**benglaru**
Banfor




18 Hoffterau
benglaru Ffrindiau + Bwyd + Golygfa #dedwyddwch

**harry41**
Bangor



Awst 2022

209 Hoffterau
harry41 Cyrraedd cynhadledd @PrifysgolBangor gwych defnyddio #apbangor newydd i helpu gyda llywio a theimlo fel person lleol



BANGOR NOW
-nothing to do on the pier
-not pretty -dull
-no colour
-more lik
beaumaris
llanda-dna
Bridges
Ysgol Friars
pier
too old
no modern buildings
Refresh-new things
-cleaner
-nicer university housing outside
next, range,
TKmax
Currys
Bets at home
Train station
high street
University
-Everything is too spread out.
-Not walking distance for youths
-youths mostly stay near the highstreet

# 5.0 Argymhellion

# 5.1. Argymhellion

## Enwebu Pencampwr

Mae'r ddogfen hon yn gosod gweledigaeth ar gyfer Bangor. Cafodd ei sefydlu yn ystod yr Wythnos Fawr, pan gynhaliwyd cyfres o weithdai gydag aelodau'r gymuned, ochr yn ochr â sesiynau galw heibio i'r cyhoedd ac ymarferion pennu gweledigaeth, er mwyn sefydlu blaenoriaethau a dyheadau ar gyfer y Ddinas. Trafodwyd a chytunwyd ar y rhain yn hwyrach ymlaen gyda'r Bartneriaeth Strategol a Chyngor Gwynedd. Felly, mae'n bwysig fod y weledigaeth hon yn cael ei diogelu a'i hyrwyddo gan berson neu grŵp o bobl addas, sy'n deall y materion lleol ac yn teimlo'n gryf ynghylch gwneud y newidiadau a nodir yn y ddogfen hon.

Gall cael rhywun i hyrwyddo'r weledigaeth a sicrhau ei bod yn cael ei hystyried yn holl ddewisiadau strategol a lleol yr ardal wneud gwir wahaniaeth wrth geisio'i chyflawni.

## Cipio Cyfleoedd

Mae rhai o'r prosiectau a nodwyd yn y ddogfen hon yn syml ac ni fyddant angen llawer o arian i gyflawni newid; mae eraill yn fwy trawsffurfiol ac angen mwy o fuddsoddiad. Am y rhesymau hyn, mae'n bwysig i Gyngor Gwynedd yn ogystal â grwpiau lleol a pherchnogion tir fod yn arloesol, yn greadigol ac yn entrepreneuraidd wrth ariannu prosiectau. Mae'n bwysig cydweithio rhwng y gwahanol sectorau o'r dechrau un fel bod modd iddyntddefnyddio cyllid o'r pŵl ehangaf posib o gyfleoedd. Mae hefyd yn bwysig cofleidio'r newidiadau sy'n digwydd yn sgil datblygu a defnyddio'r buddion i helpu gyda chyflawni'r math o Ddinas yr hoffa'r preswylwyr ei gweld.

Drwy gydweithio a chadw at y weledigaeth a nodir yn y ddogfen, mae modd cyflawni pob un o'r dyheadau hyn a chreu fframwaith ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol.

## Codi'r Bar

Mae'r prosiectau a nodir yn y ddogfen yn anelu i godi lefel ac ansawdd tir y cyhoedd a datblygiadau prosiect yn y ddinas. Er bod gwerth tir ac yn y rhanbarth yn isel ar y cyfan, nid yw hyn yn golygu nad yw dylunio da yn bosib. Dylai'r ddogfen hon wasanaethu fel rhywbeth arall i'n hatgoffa bod y dyheadau ar gyfer dylunio o ansawdd uchel a nodir yn y polisi cynllunio yn cael eu cefnogi gan y preswylwyr lleol hefyd o ran sut y maen nhw'n dymuno gweld canol Bangor.

## Parhau i fod yn Gyfranogol

Mae'r weledigaeth a'r prosiectau a nodir yn y ddogfen yn adlewyrchu dyheadau a phryderon y bobl leol wrth iddynt eu trafod mewn cyfres o sesiynau yn ystod yr Wythnos Fawr. Gwnaed yn glir bod cael cyfle i fynegi a rhoi barn yn bwysig i'r gymuned, ac roedd lefel y gefnogaeth i'r cynlluniau yn adlewyrchu hynny. Felly, wrth symud ymlaen, mae'n bwysig sefydlu cyfathrebu cyson gyda'r gymuned a'u bod yn gysylltiedig ag unrhyw gynlluniau neu gynigion newydd sy'n cael eu rhoi gerbron a allai fod o gymorth i gyflwyno'r weledigaeth hon.

## Paratoi ar gyfer Pandemigau

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos bod angen i ni newid ein dull o ddylunio amgylchedd trefol mwy hyblyg i alluogi pobl i symud o gwmpas yn ddiogel ac i gwrdd â'u hanghenion. Mae sefyllfa fanwerthu canol y ddinas yn annhebygol o newid, ac efallai y bydd yn dirywio. Felly, dylai adolygiad o'r Cynllun Lleol ystyried sut i wella hyfywdra gweithgareddau newydd yng nghanol y ddinas, gan gynnwys cael diben newydd ar gyfer canolfannau siopa a siopau ar gyfer cartrefi, addysg, defnyddiau meddygol, siopau annibynnol, gweithdai a busnesau. Mae cynyddu nifer y tai yn hanfodol i gadw canol y ddinas yn hyfyw yn economaidd ac i leihau'r ôl-troed carbon. Dylid paratoi'r ddinas, rhag ofn bod yr angen yn codi eto, i gyflwyno ymbellhau cymdeithasol yn hawdd drwy ddylunio strydoedd a mannau fel y gallant eu hadfer ar gyfer cerdded, beicio a chiwio.



**Argraff Arlunydd o'r olygfa o Pontio ac Adeilad y Celfyddydau o'r Sgwâr Coffa.**

LDĀ DESIGN

*London*
New Fetter Place
8-10 New Fetter Lane
London EC4A 1AZ
United Kingdom
+44 (0) 20 7467 1470

*Bristol*
Studio 4B
36 King Street
Bristol BS1 4DZ
United Kingdom
+44 (0) 117 203 3628

*Cambridge*
17A Sturton Street
Cambridge CB1 2SN
United Kingdom
+44 (0) 1223 949054

*Exeter*
Kings Wharf, The Quay
Exeter EX2 4AN
United Kingdom
+44 (0) 1392 260 430

*Glasgow*
Sovereign House
158 West Regent Street
Glasgow G2 4RL
United Kingdom
+44 (0) 1412 229 780

*Manchester*
Beehive Lofts
Beehive Mill
Jersey Street
Manchester M4 6JG
United Kingdom
+44 (0) 161 359 5684

*Oxford*
Worton Rectory Park
Oxford OX29 4SX
United Kingdom
+44 (0) 1865 887050

*Peterborough*
17 Minster Precincts
Peterborough PE1 1XX
United Kingdom
+44 (0) 1733 310 471

www.lda-design.co.uk

LDA Design Consulting Ltd
Rhif Cofrestredig: 09312403
17 Minster Precincts, Peterborough PE1 1XX

Mae LDA Design yn gwmni achrededig ISO 9001 /
ISO 14001 accredited company